

SDR 92/2015 (R)

14 Medi 2015

Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, Ebrill 2014 - Mawrth 2015

Ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn ar 11 Mehefin 2015, canfuwyd camgymeriad yn y dull a ddefnyddir i ddiffinio amddifadedd materol. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl wedi cael eu diffinio yn amddifadus nag y dylai fod. Nid yw'r negeseuon cyffredinol am amddifadedd materol wedi newid. Mae'r canrannau a ddyfynnir yn y bennod amddifadedd materol, gan gynnwys Siart 30 wedi cael eu cywiro, a ail-gyhoeddwyd y datganiad ar 14 Medi, 2015.

Arolwg wyneb yn wyneb o bobl ledled Cymru yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Bob blwyddyn, gofynnir i dros 14,000 o bobl 16 oed a throsodd am eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Dewisir ymatebwyr ar hap er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn gynrychioliadol.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau allweddol o'r drydedd flwyddyn lawn o waith maes (Ebrill 2014 i Fawrth 2015). Cafodd nifer o gwestiynau a ofynnwyd yn 2014-15 hefyd eu cynnwys yn yr arolwg yn 2012-13 a 2013-14. Ar gyfer pob canlyniad a drafodir yn y datganiad hwn, os ceir unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng unrhyw flwyddyn flaenorol a 2014-15, nodir hynny yn y datganiad. Yn arolwg 2014-15, cafodd nifer o bynciau newydd eu cynnwys, mae tabl sy'n dangos pa gwestiynau oedd yn newydd a pha rai cafodd eu cynnwys yn y blynyddoedd blaenorol i'w gweld yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#). Lle bo'n briodol, caiff y canlyniadau hefyd eu cymharu â chanlyniadau arolygon eraill. Bydd tablau sy'n cynnwys cyfyngau hyder a chanlyniadau manylach ar gael ar wefan [StatsCymru](#), yn fuan ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn.

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, y defnydd y gellid ei wneud o'r canlyniadau, a diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y bwletin yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#) yn y ddogfen hon. Mae gwybodaeth gefndir am yr arolwg, yn cynnwys yr holiadur llawn a dadansoddiad o ganlyniadau'r blynyddoedd cynt, ar gael ar [dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol](#).

Canfyddiadau allweddol

Bodlonrwydd cyffredinol â [iechyd](#), [addysg](#), a [Llywodraeth Cymru](#).

- Gofynnwyd i bobl raddio gwasanaethau iechyd a'r system addysg ar raddfa o ddim (eithriadol o wael) i ddeg (eithriadol o dda). Y graddfeydd cyfartalog a roddwyd ar gyfer addysg a iechyd oedd 6.3 allan o 10 ar gyfer iechyd a 6.6 ar gyfer addysg (sy'n cyfateb â chanlyniadau 2013-14).
- Gofynnwyd i bobl raddio eu bodlonrwydd o ran pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith o ddim (hollol anfodlon) i 10 (hollol fodlon). Y radd gyfartalog oedd 5.6, sydd ddim yn ystadegol yn wahanol i'r gradd a roddwyd yn 2012-13 a 2013-14.

Ystadegydd: Lisa Walters **Ffôn:** 0300 025 6685 **e-bost:** arolygon@cymru.gsi.gov.uk

Diweddariad nesaf: Mehefin 2017 (dros dro)

Twitter: [www.twitter.com/statisticswales](https://twitter.com/statisticswales) | [www.twitter.com/ystadegaucymru](https://twitter.com/ystadegaucymru)

Cyhoeddwyd gan Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 3332**

www.llyw.cymru/ystadegau

Issued by Knowledge and Analytical Services

Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ

Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**

www.gov.wales/statistics



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaethau iechyd

- Roedd 91% o bobl yn fodlon â'r gofal yr oeddent wedi'i dderbyn ar eu hymweliad diwethaf â [meddyg](#) teulu.
- Roedd 92% o bobl yn fodlon â'r gofal yr oeddent wedi'i dderbyn yn eu hapwyntiad diwethaf yn un o [ysbytai'r](#) GIG.
- Roedd 90% yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol yr oeddent wedi'i dderbyn gan y gwasanaeth [ambiwylans](#) brys, a 79% yn fodlon â'r amser y bu rhaid iddynt aros i'r ambiwlans gyrraedd.
- Dywedodd 24% o'r rhai a chanddynt salwch cyfyngus hirdymor fod ganddynt [gynllun gofal personol](#). Cytunai 88% o'r rhai a chanddynt gynllun fod eu cynllun gofal personol yn eu helpu i ofalu am eu hiechyd a'u lles.
- Roedd 72% o bobl yn profi eu [llygaid](#) o leiaf unwaith bob dwy flynedd (7% bob 6 mis, 32% unwaith y flwyddyn a 33% unwaith bob dwy flynedd). Mae 16% o ymatebwyr yn profi eu llygaid yn llai aml na phob dwy flynedd, ac nid yw 12% byth wedi profi eu llygaid.

Gwasanaethau gofal cymdeithasol

- Cytunai 52% o bobl fod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn eu hardal leol' (cytunodd 69% o'r pobl a oedd yn derbyn cymorth wrth y gwasanaethau cymdeithasol)
- Roedd 9% wedi derbyn cymorth gan wasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd 43% o'r farn fod y gofalcwyr yn ardderchog, 38% o'r farn eu bod yn dda ac 12% o'r farn eu bod yn weddol.

Gwasanaethau awdurdodau lleol

- Cytunai 53% â'r datganiad 'mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel'. Cyfradd is nag yn 2012-13 a 2013-14, pan wnaeth 57% gytuno â'r datganiad
- Cytunai 37% fod eu hawdurdod lleol yn gwneud popeth y gallai i wella'u hardal leol.

Democratiaeth a dealltwriaeth

- Roedd 12% o bobl wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd hyn yn amrywio yn ôl oedran, rhwng 5% o bobl ifanc 16-24 oed ac 18% o bobl yn y grŵp oedran 65 i 74 oed.
- O'r rheiny a gysylltodd â'u cynghorydd lleol, cytunodd 61% o bobl fod ganddynt ddealltwriaeth da o'r hyn y mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud ar gyfer eu cymuned leola chytunodd 55% o bobl fod eu cynghorydd lleol yn cydweithio'n agos â'u cymuned leol.

Defnydd o'r cyfryngau

- Teledu gwylio-am-ddim oedd y ffynhonnell fwyaf poblogaidd yr oedd pobl yn ei defnyddio i gael newyddion am Gymru a materion Cymreig, gyda 45% yn adrodd eu bod yn cael y newyddion drwy wyllo teledu gwylio-am-ddim. Roedd y rhyngwrdd yn ail agos i hyn ar 38%.

Teithio llesol

- Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, roedd 5% wedi beicio a 65% wedi cerdded am fwy na phum munud i gyrraedd cyrchfan benodol (yn hytrach nag er mwyn ymarfer corff neu er mwynhad).
- Y rheswm mwyaf cyffredin dros gerdded oedd mynd ar berwyl bach i'r siopau lleol, gyda 43% o bobl a oedd wedi cerdded am fwy na 5 munud wedi gwneud hynny am y rheswm hwnnw.
- Y rheswm mwyaf cyffredin dros feicio oedd mynd i'r gwaith (30% o'r rhai a oedd wedi beicio).
- Roedd dros 74% o blant mewn ysgolion cynradd ac 87% o blant mewn ysgolion uwchradd yn cerdded i'r ysgol fel arfer, os oedd eu cartref o fewn milltir i'r ysgol.

Llythrennedd a rhifedd

- Roedd 81% o rieni'n helpu eu plentyn i ddysgu am lythrennau neu'n helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu sawl gwaith yr wythnos o leiaf. Roedd 69% o rieni'n helpu eu plentyn gyda mathemateg neu rifau yr un mor aml.

- Roedd dros 75% o rieni'n teimlo'n hyderus iawn wrth helpu eu plentyn 3 i 11 oed i ddarllen neu ysgrifennu yn Saesneg. 60% oedd yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu i helpu eu plentyn gyda mathemateg.
- Ar y cyfan, roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg yn teimlo'n llawer mwy hyderus wrth helpu eu plentyn i ddarllen neu ysgrifennu yn Saesneg nac yn Gymraeg. Teimlai 85% yn hyderus iawn wrth helpu i ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg, o gymharu â 56% ar gyfer darllen Cymraeg a 50% ar gyfer ysgrifennu yn Gymraeg.

Ymdeimlad o gymuned

- Dywedodd 79% fod pobl yn eu hardal leol yn trin y naill a'r llall â pharch ac ystyriaeth.
- Dywedodd 79% o bobl fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd yn eu hardal leol.
- Dywedodd 82% eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol, cyfradd sy'n llai nag yn 2013-14 pan roedd 85% yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal

Mynediad i'r rhyngrwyd a'r defnydd ohono

- Roedd gan 78% o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd. Mae hyn wedi cynyddu o 75% yn 2013-14 a 73% yn 2012-13. O blith y cartrefi a chanddynt fynediad i'r rhyngrwyd, dywedodd 21% o gartrefi fod ganddynt fand eang cyflym iawn, dywedodd 77% fod ganddynt fand eang ond nid band eang cyflym iawn, a dywedodd 2% eu bod yn defnyddio dull arall gartref, ee cyswllt symudol.
- Dywedodd 81% o bobl eu bod hwy eu hunain yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd. Roedd hyn yn amrywio yn ôl oedran rhwng 99% ymhlith pobl 18-24 oed a 29% ymhlith pobl 75 oed a throsodd.
- Dywedodd 56% o bobl oedd yn rhieni i blant 7 i 15 oed nad oeddent yn defnyddio hidlyddion rheolaeth rhieni yn y cartref. Yr oedd 32% wedi clywed amdanynt ond heb fod yn eu defnyddio, ac nid oedd 12% erioed wedi clywed am hidlyddion o'r fath.

Cyllid personol

- Nid oedd 60% o bobl yn cael unrhyw anhawster i gadw i fyny â'u biliau ac ymrwymadau ariannol. Roedd hyn yn gyfran uwch nag yn 2012-13 a 2013-14, pan oedd 48% a 50% yn y drefn honno, yn gallu cadw i fyny gyda'u biliau heb anhawster.
- Dywedodd 4% o bobl eu bod wedi defnyddio gwasanaethau sefydliadau sy'n darparu cyngor a chymorth ar broblemau dyled yn y 12 mis diwethaf.

Amddifadedd materol

- Ystyrir 16% o bobl yn amddifadus yn faterol (hynny yw, lle na ellir fforddio pethau fel cadw'r tŷ'n ddigon cynnes, cynilo arian yn rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn).
- Ystyrir bod 9% o rieni â phlant sy'n amddifadus yn faterol (hynny yw, ni all y teulu fforddio pethau fel cotiau cynnes i'r plant ar gyfer y gaeaf, neu ddathlu achlysuron arbennig, fel penblwyddi a'r Nadolig).
- Mae'n fwy tebygol y ceir amddifadedd materol mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig. Ystyrir 17% o bobl mewn ardaloedd trefol yn amddifadus yn faterol, o gymharu ag 12% mewn ardaloedd gwledig.
- Pobl yn eu 30au oedd y grŵp oedran a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn amddifadus yn faterol. Roedd 23% o bobl 30 i 39 oed yn amddifadus yn faterol o gymharu â 6% o bobl 70 oed a throsodd.

Lles

- Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor fodlon yr oeddent â'u bywydau ar raddfa o ddim (ddim yn fodlon o gwbl) i ddeg (yn gwbl fodlon), y sgôr gyfartalog a roddwyd oedd 7.9 sydd yn agos at y sgôr a roddwyd yn 2012-13 a 2013-14 (7.8 a 7.7 yn y drefn honno)
- Pobl ifanc 16 i 24 oed oedd y grŵp oedran a oedd yn fwyaf bodlon â'u bywydau, gan roi sgôr gyfartalog o 8.1. Pobl 45 i 64 oed oedd yn lleiaf bodlon, gan roi sgôr gyfartalog o 7.7.

Lles anifeiliaid

- Roedd 47% o'r cartrefi yn cynnwys anifail anwes. O'r rhai a chanddynt anifail anwes, roedd ci gan 62%, cath gan 39%, a physgod gan 14%.

- O'r rhai a oedd wedi cael ci o fewn y 5 mlynedd diwethaf, roedd 46% wedi'i yswirio. 21% oedd yr un ffigur ar gyfer cathod, a 50% ar gyfer ceffylau.
- Mewn 78% o gartrefi roedd microsglodyn wedi'i osod ar y ci.

Celfyddydau, Amgueddfeydd a Threftadaeth

- Roedd 58% o bobl wedi bod i ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y 12 mis diwethaf; roedd 59% wedi ymweld â lleoliad hanesyddol, a 39% wedi bod i amgueddfa.
- Roedd 97% o bobl yn fodlon â'r lle celfyddydol a'r lle hanesyddol y gwnaethant ei ymweld, a 96% yn fodlon gyda'r amgueddfa y gwnaethant ei ymweld.

Gofal plant

- Roedd angen i 49% o rieni â phlentyn 0 i 14 oed drefnu gofal i'w plant er mwyn iddynt allu gweithio, astudio neu fynychu hyfforddiant.
- Roedd 46% o rieni a oedd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol yn ei chael hi'n anodd fforddio'r gofal hwnnw.
- Roedd 74% o rieni yn ei chael hi'n hawdd cael hyd i ofal plant sy'n gweddu i'w horiau gwaith. Roedd 32% yn ei chael hi'n anodd cael hyd i ofal plant ffurfiol (hynny yw, gofal plant a ddarperir gan bobl heblaw teulu a ffrindiau) yn ystod gwyliau'r ysgol.

Chwarae

- Roedd 54% o'r rhieni a chanddynt blentyn 1 i 10 oed yn fodlon â'r cyfleusterau chwarae yn eu hardal leol; tra'r oedd 38% a chanddynt blentyn 11 i 15 oed yn fodlon â'r ddarpariaeth honno.
- O blith y rhieni a chanddynt blentyn 0 i 10 oed a oedd yn anfodlon, dywedodd 83% nad oedd digon o lefydd cyhoeddus awyr agored addas i'w plentyn chwarae, a dywedodd 64% nad oedd digon o lefydd dan do addas ar gael.
- O blith y rhieni a chanddynt blentyn 11 i 15 oed a oedd yn anfodlon, cyfeiriodd 77% at ddiffyg llefydd cyhoeddus awyr agored addas a 79% at ddiffyg llefydd cyhoeddus dan do. Dywedodd 64% nad oedd digon o glybiau neu weithgareddau wedi'u trefnu.

Ailgylchu

- Roedd 82% o bobl yn fodlon â'r gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu yr oedd eu cyngor yn ei ddarparu. Roedd hyn yn amrywio rhwng 69% yn Nhorfaen a 88% yng Nghaerffili.
- Roedd 83% wedi rhoi neu werthu eitemau ail-law i eraill. Yr oedd 60% wedi prynu neu dderbyn eitem ail-law.
- Siopau elusen oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o roi/brynu eitemau ail-law. Yr oedd 71% wedi cyfrannu eitem(au) i siop elusen yn ystod y 12 mis blaenorol a 37% wedi prynu o siop elusen yn ystod yr un cyfnod.

Cenedlaethau'r dyfodol

- Roedd 59% o bobl yn meddwl y byddai'r bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn fwy mewn 25 o flynyddoedd, ac roedd 59% o bobl yn meddwl y byddai'r effaith ar y newid yn yr hinsawdd yn waeth mewn 25 o flynyddoedd.
- Roedd 34% o bobl yn meddwl y byddai pobl yn llai iach mewn 25 o flynyddoedd; ac roedd 36% yn meddwl y byddai pobl yn fwy iach.
- Roedd 31% o bobl yn meddwl y byddai'r safon byw yng Nghymru yn waeth na'r safon bresennol mewn 25 mlynedd; ac roedd 31% yn meddwl y byddai'r safon byw yn well.

Llety

- Roedd 94% o bobl yn fodlon â'u llety. Roedd bodlonrwydd yn amrywio yn ôl deiliadaeth. Roedd 97% o berchen-feddianwyr yn fodlon â'u llety, o gymharu ag 90% o'r rhai mewn llety rhent preifat ac 83% o'r rhai a oedd mewn tai cymdeithasol.
- Roedd 74% o'r rhai a oedd yn rhentu eu llety yn fodlon â'r modd yr oedd eu landlord yn atgyweirio a chynnal a chadw eu cartref.

Mesurau arbed ynni

- Roedd 14% o bobl wedi newid cyflenwr ynni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd 36% wedi newid cyflenwr cyn hynny, a dywedodd 50% o bobl nad oeddent erioed wedi newid cyflenwr.
- Roedd to 94% wedi'i inswleiddio, roedd gan 74% waliau ceudod wedi'u hinswleiddio, ac roedd gan 31% waliau solet wedi'u hinswleiddio.
- Roedd gan 4% o'r holl eiddo baneli solar neu fesurau ynni adnewyddadwy eraill.

Entrepreuriaeth

- Byddai 35% o bobl oed 16 i 65 yn hoffi dechrau eu busnes eu hunain yn y dyfodol. O blith y rheiny, dywedodd 20% y byddai hynny'n debygol iawn o ddigwydd, 24% y byddai'n weddol debygol, 40% na fyddai'n debygol iawn ac 15% na fyddai'n debygol o gwbl.

Y Lluoedd Arfog

- Roedd 7% o bobl naill ai'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU ar y pryd, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol.
- Dywedodd 16% o'r ymatebwyr fod o leiaf un aelod o'u teulu agos yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar y pryd, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol.
- Roedd 19% o'r ymatebwyr yn aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. (h.y. yn gwasanaethu ar hyn o bryd neu yn flaenorol, neu bod eu priod/partner neu riant yn gwasanaethu ar hyn o bryd neu wedi yn flaenorol).

Cynnwys

Llywodraeth Cymru	9
Democratiaeth a dealltwriaeth.....	11
Defnydd o'r cyfryngau	12
Gwasanaethau awdurdodau lleol	13
Iechyd	15
Meddygfeydd	15
Ysbytai	16
Gwasanaethau ambiwlans	17
Ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd	18
Cynlluniau gofal personol	19
Gofal llygaid	20
Bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau iechyd yng Nghymru	21
Gofal cymdeithasol.....	22
Lles y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth	23
Defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	24
Teithio llesol - oedolion	25
Teithio llesol - dull o gyrraedd yr ysgol	27
Llythrennedd a rhifedd - cymorth gan rieni.....	28
Safbwyntiau ar y system addysg yng Nghymru	30
Defnydd a mynediad i'r rhyngrwyd	31
e-Ddiogelwch	33
Gwefannau gwasanaethau cyhoeddus	34
Ymdeimlad o gymuned	35
Cyllid personol	36
Amddifadedd materol	37
Lles	40
Lles anifeiliaid	41
Y celfyddydau, amgueddfeydd a threftadaeth.....	42
Gofal plant.....	44
Chwarae.....	45
Ailgylchu.....	46
Cenedlaethau'r dyfodol	48
Llety	49
Mesurau arbed ynni	50
Entrepreneuriaeth	52
Y Lluoedd Arfog	53
Termau a diffiniadau	54
Gwybodaeth allweddol o ansawdd.....	55

Rhestr Siartiau

Siart 1: Bodlonrwydd â gwaith Llywodraeth Cymru, yn ôl oedran	9
Siart 2: Y gyfran a gytunai'n gryf â datganiadau ynglŷn â'r cynghorydd lleol, yn ôl amddifadedd	11
Siart 3: Ffynonellau newyddion am Gymru a materion Cymreig, yn ôl grŵp oedran	12
Siart 4: Y gyfran o bobl sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel, yn ôl awdurdod lleol	13
Siart 5: Cyfran y bobl a oedd yn cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn gwneud popeth y gallai ei wneud i wella'r ardal leol, yn ôl awdurdod lleol	14
Siart 6: Bodlonrwydd â'r gofal a gawsant gan feddyg teulu, yn ôl Bwrdd Iechyd	15
Siart 7: Bodlonrwydd â'r gofal a gafwyd yn yr ysbyty, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol	16
Siart 8: Bodlonrwydd ag amser ymateb gwasanaethau ambiwlans brys, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol	17
Siart 9: Gwasanaethau iechyd lleol: ymgysylltiad a gwybodaeth	18
Siart 10: Y gyfran a oedd yn profi eu llygaid o leiaf unwaith bob dwy flynedd, yn ôl oedran	20
Siart 11: Bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaethau iechyd, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol	21
Siart 12: Y graddau y cytunir â'r datganiad 'mae gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal', yn ôl y profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol	22
Siart 13: Cytuno â datganiadau amrywiol, yn ôl y profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol	23
Siart 14: Cyfran y siaradwyr Cymraeg a oedd wedi siarad yn Gymraeg â staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl y iaith y dewiswyd defnyddio	24
Siart 15: Pwrpas y 'daith lesol' ddiweddaraf	25
Siart 16: Amllder cerdded neu'n defnyddio beic fel ffordd o deithio, yn ôl rhyw	26
Siart 17: Dull teithio a ddefnyddir fel arfer gan blant i gyrraedd yr ysgol	27
Siart 18: Cymorth gan rieni - plant 3 i 7 oed	28
Siart 19: Hyder rhieni wrth helpu plentyn 3 i 11 gyda mathemateg a Saesneg	29
Siart 20: Hyder rhieni sy'n siarad Cymraeg i helpu plentyn 3 i 11 gyda'r Gymraeg	29
Siart 21: Y sgôr gyfartalog a roddwyd ar gyfer cyflwr addysg yng Nghymru, yn ôl ALII	30
Siart 22: Math o ryngrwyd yn ôl bodlonrwydd â chyflymder y cyswllt	31
Siart 23: Defnydd personol o'r rhyngrwyd, yn ôl grŵp oedran	32
Siart 24: Ffynonellau cyngor neu wybodaeth i rieni ynghylch diogelwch plant ar y rhyngrwyd	33
Siart 25: Y gyfran sydd wedi cwblhau trafodiad ar-lein ar wefan gwasanaeth cyhoeddus lleol, yn ôl grŵp oedran	34
Siart 26: Cyfran y bobl a gytunai â datganiadau am bobl yn eu hardal leol, yn ôl oedran	35
Siart 27: Gallu ymdopi â'u holl filiau ac ymrwymadau heb anawsterau, yn ôl oedran	36
Siart 28: Amddifadedd materol a Siart 29: Amddifadedd materol ymhlith plant	37
Siart 30: Cyfran y cartrefi lle ceir amddifadedd materol, yn ôl Awdurdod Lleol	39
Siart 31: Bodlonrwydd ag agweddau ar fywyd	40
Siart 32: Y gyfran o gartrefi lle mae rhywun yn berchen ar yr anifail anwes	41
Siart 33: Rheswm dros beidio mynd i ddigwyddiad celfyddydol, man hanesyddol neu amgueddfa yn y 12 mis diwethaf	43
Siart 34: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i gael gofal plant i blentyn 0 i 14 oed	44
Siart 35: Lefel y bodlonrwydd/anfodlonrwydd â'r manau chwarae yr ardal leol	45
Siart 36: Bodlonrwydd â'r gwasanaeth casglu ailgylchu a ddarperir, yn ôl awdurdod lleol	46
Siart 37: Y ganran a oedd wedi gwerthu neu roi eitemau o gymharu â'r ganran a oedd wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law neu eitemau wedi'u defnyddio, yn ôl dull	47
Siart 38: Barn ymatebwyr ar agweddau ar Gymru ymhen 25 mlynedd	48


Siart 39: Bodlonrwydd â'r modd yr oedd eu landlord yn atgyweirio ac yn cynnal a chadw eu cartref yn ôl math o landlord	49
Siart 40: Mesurau arbed ynni yn ôl math o ddeiliadaeth	50
Siart 41: Y rhai a fyddai'n hoffi cychwyn eu busnes eu hunain yn y dyfodol, yn ôl tebygolrwydd, oedran a rhyw	52
Siart 42: Canran y bobl sydd yng nghymuned y Lluoedd Arfog yn ôl oedran	53

Llywodraeth Cymru

[Y Rhaglen Lywodraethu](#) yw cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'n amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei gyflawni a sut y mesurir y cyflawniad hwnnw. Un o'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu yw sicrhau bod poblogaeth Cymru'n gwybod beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud a pha mor dda y mae'n perfformio. Defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol fel ffordd o fesur hyn.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl pa mor fodlon oeddent â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud eu gwaith. Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim a deg, lle'r oedd dim yn golygu 'eithriadol o anffodlon' a deg yn golygu 'hollol fodlon'. Y sgôr gyfartalog a roddwyd oedd 5.6. Mae siart 1 yn dangos sut yr oedd bodlonrwydd â gwaith Llywodraeth Cymru'n amrywio yn ôl oedran

Siart 1: Bodlonrwydd â gwaith Llywodraeth Cymru, yn ôl oedran (a)



- Roedd pobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) a phobl hŷn (75+ oed) yn fwy bodlon â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud ei gwaith, gan roi sgôr gyfartalog o 6.2 a 5.8 yn y drefn honno.
- Pobl rhwng 65 a 74 oed oedd y grŵp oedran lleiaf bodlon, gan roi sgôr gyfartalog o 5.2

(a) Atebwyd ar raddfa o ddim (eithriadol o anffodlon) i ddeg (hollol fodlon).

Yn yr un modd â'r holl gwestiynau eraill, hepgorwyd yr ymatebion "Ddim yn gwybod" wrth ddadansoddi. Mae'n werth nodi bod y gyfran o ymatebwyr a atebodd "Ddim yn gwybod" ar gyfer y cwestiwn hwn, sef 10%, yn llawer uwch nag ar gyfer llawer o gwestiynau eraill. I'r gwrthwyneb, 2% oedd y gyfran gyfartalog a atebodd "Ddim yn gwybod" mewn cwestiynau tebyg ynghylch iechyd.¹ Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng ngraddfeydd y bodlonrwydd wrth ddadansoddi yn ôl rhyw, rhanbarth ddaearyddol, neu yn ôl a oedd pobl yn eu hystyried eu hunain yn Gymro/Gymraes ai peidio.

Gofynnodd [Arolwg Cymdeithasol Ewrop](#) 2012 gwestiwn tebyg am fodlonrwydd â gwaith llywodraeth y DU, a chofnododd sgôr gyfartalog o 4.1 (ar gyfer Llywodraeth y DU) a 3.8 ar gyfartaledd ar draws Ewrop. Fodd bynnag, ceir nifer o wahaniaethau rhwng yr arolygon.² Er mwyn cymharu'n fanwl â gwledydd eraill yn Ewrop, sylwch y dylid cymharu canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13 â

¹ Atebodd 18% "Ddim yn gwybod" ar gyfer y system [addysg](#) lle nad oedd y cartref yn cynnwys plentyn o dan 19 oed, a 2% lle'r oedd plant yn y cartref.

² Er enghraifft, mae pwerau Llywodraeth Cymru ddatganoledig yn wahanol i bwerau llywodraethau'r DU a llywodraethau eraill yn Ewrop; gall y cwestiynau eraill a ofynnwyd yn y ddau arolwg effeithio ar ymatebion i'r cwestiwn hwn; ac mae'r cyfnodau amser a drafodir yn y ddau arolwg yn wahanol. Mae canlyniadau Arolwg Cymdeithasol Ewrop yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd ym mis Medi i Ragfyr 2012, o'i gymharu â gwaith maes yr Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd dros flwyddyn gyfan o fis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015. Cewch weld y gymhariaeth agosaf (cymhariaeth o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13 â chanlyniadau Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2012) [yma](#).

chanlyniadau Arolwg Cymdeithasol Ewrop yn 2012. Mae'r cymariaethau hyn ar gael mewn [adroddiad ar wahân](#). Bydd ffigurau Arolwg Gymdeithasol Ewrop 2014 ar gael mis Hydref 2015.

Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol 2014-15 i bobl faint yr oeddent wedi'i weld neu ei glywed am waith Llywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf. Nododd 8% eu bod wedi gweld neu glywed 'llawer iawn', 29% 'rhywfaint', a 41% 'dim ond ychydig'. Roedd 12% wedi gweld neu glywed am waith y Llywodraeth ond heb wybod dim amdano, ac nid oedd 11% wedi gweld na chlywed dim am waith Llywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf. Nid oes unrhyw wahaniaethau gwirioneddol rhwng canlyniadau 2012-13, 2013-14 a 2014-15.

Democratiaeth a dealltwriaeth

[Y Rhaglen Lywodraethu](#) yw cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru. Un o'r ymrwymadau ynddo yw cryfhau democratiaeth leol, yn rhannol drwy sicrhau bod gan y cyhoedd yng Nghymru ddealltwriaeth well o rôl eu cynghorwyr lleol, o ran yr hyn y maent yn ei wneud i gynrychioli eu hetholwyr a'u rôl yn y gwaith i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i bobl a oeddent wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, a gofynnwyd a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r ddau ddatganiad canlynol:


- Mae dealltwriaeth dda gyda fi o'r hyn mae fy nghynghorydd lleol yn ei wneud ar gyfer fy nghymuned leol.
- Mae fy nghynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda fy nghymuned leol.

Adroddodd 12% o bobl eu bod wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd hyn yn amrywio yn ôl oedran, o 5% o bobl ifanc 16-24 oed i 18% o bobl yn y grŵp oedran 65 i 74. Roedd ymatebwyr a chanddynt lefel uwch o gymwysterau, a'r rhai a oedd yn fwy ymwybodol o waith Llywodraeth Cymru yn fwy tebygol o fod wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol. Roedd 23% o'r rhai a oedd wedi gweld neu glywed 'llawer iawn' am Lywodraeth Cymru wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol, o gymharu ag 8% o'r rhai nad oeddent wedi gweld na chlywed am waith Llywodraeth Cymru.

O blith y rhai a oedd wedi cysylltu â'u cynghorydd dros y 12 mis diwethaf, roedd 61% yn cytuno (28% yn gryf, 33% yn tueddu i gytuno) bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn yr oedd eu cynghorydd yn ei wneud ar gyfer eu cymuned leol. Cytunai 55% (27% yn gryf, a 28% yn tueddu i gytuno) fod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos a'u cymuned leol.

Mae Siart 2 yn dangos sut yr oedd y gyfran a gytunai'n gryf â'r ddau ddatganiad uchod yn amrywio yn ôl amddifadedd eu hardal.

Siart 2: Y gyfran a gytunai'n gryf â datganiadau ynglŷn â'r cynghorydd lleol, yn ôl amddifadedd ardal



- Roedd 24% o'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus, ac a oedd wedi cysylltu â'u cynghorydd yn cytuno'n gryf bod ganddynt ddealltwriaeth o'r hyn yr oedd eu cynghorydd yn ei wneud ar gyfer y gymuned leol, o gymharu â 34% yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus.
- Roedd 23% o'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus yn cytuno'n gryf bod eu cynghorydd yn gweithio'n agos â'u cymuned leol, o gymharu â 36% yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus.

O blith y rhai a chanddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn yr oedd eu cynghorydd lleol yn ei wneud i'r ardal, cytunai 77% fod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos â'u cymuned leol, o gymharu â dim ond 12% o blith y rhai nad oedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn yr oedd eu cynghorydd lleol yn ei wneud.

O blith y rhai a oedd yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol, teimlai 50% fod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos â'u cymuned leol, o gymharu â 39% o'r rhai nad oeddent yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol.


Defnydd o'r cyfryngau

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i wybod sut mae pobl yng Nghymru yn cael newyddion am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ac am faterion Cymreig (nid am y Gymraeg yn unig o reidrwydd). Pwysleisiodd y [Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus](#) (dan gadeiryddiaeth Syr Paul Williams) yr angen i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu eu hymgysylltiadau cyhoeddus a'u strategaethau cyfathrebu. Yn unol â hynny, cyflwynwyd cwestiwn newydd yn Arolwg Cenedlaethol 2014-15 a ofynnai i bobl ddewis y prif ddulliau a ddefnyddir ganddynt i gael y newyddion diweddaraf am Gymru. Defnyddir y dystiolaeth hon er mwyn helpu i ganfod ffyrdd i ymgysylltu â dinasyddion Cymru a chynllunio trefniadau cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

Teledu gwylio-am-ddim oedd y ffynhonnell fwyaf poblogaidd oedd yn cael ei defnyddio i gael newyddion am Gymru a materion Cymreig, gyda 45% yn adrodd mai drwy'r ffynhonnell honno yr oeddent yn cael eu newyddion. Roedd y rhyngwrwyd yn ail agos, ar 38%.

Dengys Siart 3 y gwahaniaethau rhwng y canlyniadau yn ôl grwpiau oedran amrywiol. I'r rhai 65 oed a throsodd, teledu digidol gwylio-am-ddim oedd y ffynhonnell a oedd yn cael ei defnyddio amlaf i gael newyddion am Gymru (61%). I'r rhai 16 i 24 oed, y rhyngwrwyd oedd y brif ffynhonnell a oedd yn cael ei defnyddio (59%); mae hyn yn cymharu ag 12% o'r rhai 65 oed a throsodd. Roedd papurau newydd a gorsafoedd radio lleol yng Nghymru yn ffynhonnell gyffredin o newyddion ar gyfer y grwpiau oedran 25 i 64 oed a 65 oed a throsodd. Ymhlith pobl ifanc 16 i 24 oed yr oedd y datblygiadau cyfryngol mwy diweddar, fel apiau ar ffonau clyfar, yn fwyaf poblogaidd (23%).

Siart 3: Ffynonellau newyddion am Gymru a materion Cymreig, yn ôl grŵp oedran



Gwasanaethau awdurdodau lleol


Ceir 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn gyfrifol am gyflenwi amrywiaeth eang o wasanaethau yn eu hardal, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai. Mae awdurdodau lleol yn gweithio o fewn pwerau a sefydlir mewn Deddfau Seneddol a Deddfau a gaiff eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n casglu tystiolaeth o nifer o ffynonellau i fonitro perfformiad pob awdurdod lleol (ee, adroddiadau archwilio, arolygu a rheoleiddio, data ar berfformiad, a chynnydd a adroddir gan awdurdodau lleol eu hunain tuag at gyflawni eu hamcanion strategol). Yn gynharach eleni, pennodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn y Papur Gwyn [Grym i Bobl Leol](#) yn seiliedig ar gael llai o awdurdodau lleol erbyn 2020. Roedd y dogfennau hefyd yn cynnwys cynigion am fframwaith perfformiad newydd yn seiliedig ar wybodaeth reoli amserol a fyddai'n galluogi cymharu perfformiad awdurdodau lleol.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys nifer o gwestiynau am wasanaethau awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn helpu i ddeall barn pobl ynglŷn â'r gwasanaethau hynny. Yn ogystal â bod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr i Lywodraeth Cymru, bydd y canlyniadau hefyd o ddiddordeb i sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, fel awdurdodau lleol eu hunain, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Dangosodd [ymchwil blaenorol](#) fod y mwyafrif helaeth o'r amrywiaeth mewn bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau awdurdodau lleol yn tarddu o wahaniaethau rhwng unigolion, yn hytrach na'r ardal awdurdod lleol y maent yn byw ynddi.³ Dangosodd yr un ymchwil mai'r ffactorau allweddol a oedd yn dylanwadu ar fodlonrwydd cyffredinol pobl oedd eu barn ar ba mor dda y mae eu hardal yn cael ei chynnal a'i chadw, a'u barn ar ba mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyfathrebu ynglŷn â'i berfformiad.

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel'. Yn gyffredinol, roedd 53% yn cytuno â'r datganiad, cyfradd is nag yn 2012-13 a 2013-14, pan oedd 57% yn cytuno. Dangosir y canlyniadau ar gyfer pob awdurdod lleol yn Siart 4.

Siart 4: Y gyfran o bobl sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel, yn ôl awdurdod lleol




³ Gweler yr [adroddiad ar fodlonrwydd â gwasanaethau awdurdod lleol](#) yn seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg yn 2012-13.

Gwelir yn siart 4 fod 42% ym Mlaenau Gwent yn cytuno a'r datganiad o gymharu a 65% yng Nghonwy. Roedd pobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig⁴ ychydig yn fwy tebygol (58%) o gytuno â'r datganiad hwn na'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (50%).

Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd yn [Arolwg Cartrefi'r Alban 2013](#), lle cytunodd 45% o bobl yr Alban bod eu 'cyngor lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel'.⁵

Yn 2014-15, cafodd cwestiwn newydd ei gynnwys yn gofyn a oedd pobl yn cytuno neu'n anghytuno bod y cyngor 'yn gwneud popeth y gallai ei wneud i wella fy ardal leol'. Ar y cyfan, mae cyfran is o bobl yn cytuno â'r datganiad hwn (37%) nag oedd yn cytuno bod eu cyngor lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (53%). Mae'r gyfran yn cytuno bod eu cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol yn amrywio o 29% ym Mhowys i 45% yng Nghaerffili, fel y dangosir yn Siart 5.

Siart 5: Cyfran y bobl a oedd yn cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn gwneud popeth y gallai ei wneud i wella'r ardal leol, yn ôl awdurdod lleol



⁴ Gweler yr adran termau a diffiniadau yn yr Atodiad i weld sut mae'r ardaloedd difreintiedig wedi cael eu ddiffinio.

⁵ Mae'r canlyniadau'n cynnig cyd-destun defnyddiol, ond ceir rhai gwahaniaethau rhwng y ddau arolwg. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn egluro'r gwasanaethau y dylai pobl eu hystyried cyn gofyn y cwestiynau am wasanaethau awdurdodau lleol, ond nid yw hyn yn digwydd yn Arolwg Cartrefi'r Alban. Mae Arolwg Cartrefi'r Alban yn cynnwys cwestiwn ymhlith lluo o gwestiynau am wasanaethau lleol, a gaiff eu cylchdroi ar hap, sy'n lleihau'r graddau y gellir ei gymharu â'r Arolwg Cenedlaethol. Mae Arolwg Cartrefi'r Alban hefyd yn trafod cyfnod cynharach (2013 o gymharu â 2014-15 yn yr Arolwg Cenedlaethol; er y canfuwyd lefelau uwch o fodlonrwydd yng Nghymru yn Arolwg Cenedlaethol 2013-14 hefyd o gymharu ag Arolwg Cartrefi'r Alban 2013). Ceir mwy o wybodaeth am y graddau y gellir cymharu cwestiynau [yma](#).

Iechyd


Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gofal iechyd wrth fesur perfformiad y GIG yng Nghymru. Mae [Law yn Llaw at Iechyd](#), cynllun pum mlynedd ar gyfer GIG Cymru, yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu dull gweithredu cenedlaethol o fesur profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd. Yr Arolwg Cenedlaethol yw un o'r ffyrdd a ddefnyddir gan Llywodraeth Cymru i fesur y profiadau hyn.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau am brofiadau pobl o feddygfeydd, ysbytai ac ambiwlansys y GIG. Trafodai'r cwestiynau hyn fodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau iechyd, rhwyddineb mynediad at wasanaethau gofal iechyd, a oedd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch, a bodlonrwydd â'r gofal a gawsant.

Meddygfeydd

Roedd 75% o bobl wedi ymweld â meddyg teulu i drafod eu hiechyd eu hunain yn ystod y 12 mis blaenorol. O blith y rhain, yr oedd 91% yn fodlon (66% yn fodlon iawn a 25% yn weddol fodlon) â'r gofal a gawsant, nid oedd hwn yn ganran gwahanol yn ystadegol i'r canran a oedd yn fodlon yn 2012-13 a 2013-14 Mae Siart 6 yn dangos y gyfran a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r gofal a gawsant, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol.⁶

Siart 6: Bodlonrwydd â'r gofal a gawsant gan feddyg teulu, yn ôl Bwrdd Iechyd



Fel y gwelir yn Siart 6, nid oedd llawer o amrywio rhwng y Byrddau Iechyd. Roedd y gyfran a oedd yn fodlon â'r gofal a gawsant yn eu hapwyntiad gyda meddyg teulu yn amrywio rhwng 86% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a 93% o bobl a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mewn [ymchwil blaenorol](#) canfuwyd bod mwyafrif helaeth yr amrywio mewn bodlonrwydd â'r gofal a gafwyd gan feddyg teulu yn tarddu o wahaniaethau rhwng unigolion, yn hytrach na'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am yr ardal y maent yn byw ynddi.⁷

Canfuwyd bod pobl 65 i 74 oed yn fwy bodlon â'r gofal a gawsant gan eu meddyg teulu (95%) nag oedolion iau rhwng 16 a 24 oed (83%).

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi cael apwyntiad gyda meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf, pa mor hawdd neu anodd oedd hi i drefnu apwyntiad cyfleus. Roedd 37% yn ei chael hi'n anodd (18% yn anodd iawn ac 19% yn weddol anodd).


⁶ Ceir gwybodaeth am y Byrddau Iechyd Lleol [yma](#)

⁷ Gweler yr [adroddiad ar fodlonrwydd â gwasanaethau iechyd](#) sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau'r Arolwg yn 2012-13.

Ysbytai

Roedd 44% o bobl wedi bod i apwyntiad yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf. O blith y rhain, roedd 92% yn fodlon (71% yn fodlon iawn a 21% yn eithaf bodlon) â'r gofal a gawsant (mae hyn yn cynnwys cleifion dydd, cleifion allanol a chleifion mewnol). Roedd cyfrannau tebyg yn fodlon yn 2012-13 a 2013-14. Mae Siart 7, sy'n seiliedig ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2014-15, yn dangos y gyfran a oedd yn fodlon iawn, neu'n eithaf bodlon, â'r gofal a gawsant yn yr ysbyty, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol.

Siart 7: Bodlonrwydd â'r gofal a gafwyd yn yr ysbyty, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol



Nid oedd y canlyniadau'n amrywio rhyw lawer yn ôl Bwrdd Iechyd. Roedd y gyfran o bobl a oedd yn fodlon â'r gofal a gawsant yn eu hapwyntiad yn yr ysbyty'n amrywio rhwng 90% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r fro a 94% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Yn yr un modd â gofal gan feddygon teulu, dengys ymchwil blaenorol bod mwyafrif helaeth yr amrywio mewn bodlonrwydd â gofal ysbyty yn tarddu o wahaniaethau rhwng unigolion, yn hytrach na'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am yr ardal y maent yn byw ynddi.⁸

Roedd pobl 75 a throsodd yn fwy tueddol o fod yn fodlon â'r gofal a gawsant yn yr ysbyty (95%) o gymharu â phobl 25-44 oed a oedd yn tueddu i fod yn lleiaf bodlon â'r gofal hwnnw (89%).

⁸ Gweler yr [adroddiad ar fodlonrwydd â gwasanaethau iechyd](#) yn seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.

Gwasanaethau ambiwlans

Mae'r [Rhaglen Lywodraethu](#) yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae gwella ansawdd gofal brys, a mynediad at y gofal hwnnw, gan gynnwys gwasanaethau ambiwlans, yn flaenoriaeth.


Er mwyn helpu i ddeall y materion, ychwanegwyd cyfres o gwestiynau at Arolwg Cenedlaethol 2014-15 am brofiadau pobl o wasanaethau ambiwlans. Trafodai'r cwestiynau hyn fodlonrwydd â'r amser ymateb, y gwasanaeth yr oedd pobl wedi'i dderbyn ac a oeddent yn ymddiried yn sgiliau proffesiynol y criw.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, cysylltodd 14% o bobl â'r gwasanaeth ambiwlans brys yng Nghymru. O blith y rhain, roedd 90% yn fodlon (79% yn fodlon iawn ac 11% yn weddol fodlon) â'r gwasanaeth cyffredinol a gawsant. Gofynnwyd cwestiynau tebyg hefyd yn [Arolwg Byw yng Nghymru 2007](#), lle canfuwyd bod 13% o bobl wedi cysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans brys yn ystod y 12 mis diwethaf. O blith y rhain, roedd 94% yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a gawsant. Dylid nodi bod rhai gwahaniaethau rhwng y dull o gynnal y ddau arolwg, a allai fod wedi cyfrannu at y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau.⁹

O blith y rhai a oedd wedi cysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans brys yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 79% yn fodlon â'r amser yr oedd yn rhaid iddynt aros i ambiwlans gyrraedd (roedd 58% yn fodlon iawn a 20% yn weddol fodlon). Yn [arolwg Byw yng Nghymru 2007](#), roedd 86% yn fodlon â'r amser yr oedd yn rhaid iddynt aros i'r ambiwlans gyrraedd (69% yn fodlon iawn ac 17% yn weddol fodlon). Fodd bynnag, mae data ar berfformiad [amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans](#) yn dangos mai ychydig o newid fu mewn perfformiad amseroedd ymateb rhwng 2006-07, a 2013-14.

Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ambiwlans brys i'w trigolion lleol ers mis Ebrill 2014. Dengys Siart 8 sut yr oedd bodlonrwydd ag amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn amrywio yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol.

Siart 8: Bodlonrwydd ag amser ymateb gwasanaethau ambiwlans brys, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol



- Roedd 68% o'r rhai ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf yn fodlon â'r amser a gymerodd i'r ambiwlans gyrraedd, o gymharu ag 86% o'r rhai yn Hywel Dda.

⁹ Cynhaliwyd yr Arolwg Byw yng Nghymru gyda chynrychiolydd y cartref (y sawl sy'n rhentu/yn berchen ar y cartref, yr hynaf, neu'r sawl sy'n ennill y mwyaf o arian) yn hytrach nag oedolyn 16+ oed a ddewiswyd ar hap, fel y gwnaed yn yr Arolwg Cenedlaethol.


O blith y rhai a oedd wedi cysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans brys yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd gan 97% ymddiriedaeth a hyder yn sgiliau proffesiynol y criw (dywedodd 91% hynny 'yn bendant' a 6% 'i raddau').

Ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i wybod i ba raddau y mae pobl o'r farn eu bod yn ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus, fel y gall weithio i gynyddu lefelau'r ymgysylltu, a gwella gwasanaethau cyhoeddus yn sgil hynny.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys nifer o gwestiynau am ymgysylltiad pobl â gwasanaethau iechyd lleol. Gofynnwyd i bobl gytuno neu anghytuno â chyfres o ddatganiadau, fel y nodir yn Siart 9.

Siart 9: Gwasanaethau iechyd lleol: ymgysylltiad a gwybodaeth



Cytunai 90% o bobl fod ganddynt y wybodaeth i benderfynu sut i fyw bywyd iach (46% yn cytuno'n gryf a 44% yn tueddu i gytuno). Cytunai 84% o bobl fod ganddynt yr wybodaeth gywir i benderfynu pa wasanaeth iechyd i'w ddefnyddio os oeddent yn sâl neu wedi cael anaf (roedd 43% yn cytuno'n gryf a 41% yn tueddu i gytuno).

Roedd 15% o bobl yn cytuno'n gryf y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am sut mae eu gwasanaethau iechyd lleol yn perfformio. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng ers 2013-14, pan wnaeth 20% gytuno'n gryf. Roedd 10% o bobl yn cytuno'n eu bod yn cael gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau iechyd lleol. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu ers 2013-14, pan oedd 6% yn cytuno'n gryf â'r datganiad.

Cynlluniau gofal personol

Nodir yn [Y Rhaglen Lywodraethu](#) y dylai pobl â phroblemau iechyd meddwl, canser a chyflyrau hirdymor gael cynllun gofal personol sy'n gymesur â'u hanghenion. Pwrrpas cynllun gofal personol yw hyrwyddo partneriaeth rhwng y gweithiwr proffesiynol meddygol a'r sawl sydd a chyflwr hirdymor. Cofnod cryno yw'r cynllun gofal o'r opsiynau cytunedig ar gyfer gofal, a'r nodau i'w cyflawni gan yr unigolyn. Gellir creu'r cynllun drwy gynnal sgwrs â'r meddyg neu ei ddarparu'n ysgrifenedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio [canllawiau](#) i gytuno ar ofal â phobl a chanddynt gyflyrau hirdymor. Ystyrir ei bod yn bwysig i'r unigolyn deimlo ei fod yn cael gwybodaeth a chefnogaeth i reoli effaith ei gyflwr ar ei fywyd bob dydd.

Canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod gan 25% o'r ymatebwyr gyflwr neu salwch a oedd wedi lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol. Yng [Nghyfrifiad 2011](#)¹⁰ adroddwyd bod gan 23% o bobl broblem iechyd neu anabledd hirdymor a gyfyngai ar eu gweithgareddau beunyddiol (ychydig neu'n fawr). Adroddodd [Arolwg Iechyd Cymru](#)¹⁰ fod 33% o oedolion yn dweud bod problem iechyd neu anabledd a oedd yn para'n hwy na 12 mis yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol.

Yn yr Arolwg cenedlaethol, o'r 25% o bobl a chanddynt gyflwr neu salwch a oedd yn lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol, dywedodd 24% fod ganddynt gynllun gofal personol. Cytunai 88% o'r rhai a chanddynt gynllun gofal personol fod y cynllun hwnnw'n eu helpu i ofalu am eu hiechyd a'u lles (41% yn cytuno'n gryf a 46% yn tueddu i gytuno).

¹⁰ Er bod modd cymharu'r canlyniadau'n fras, dylid cofio am y gwahaniaethau rhwng Arolwg Iechyd Cymru (AIC), y Cyfrifiad a'r Arolwg Cenedlaethol. Nid yw'r Cyfrifiad, er enghraifft, yn seiliedig ar sampl o bobl, a holiadur a gwblheir gan yr ymatebwr yw AIC, tra bo'r Arolwg Cenedlaethol yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb.


Gofal llygaid

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd iechyd y llygaid a'r angen i ddefnyddio gwasanaethau gofal llygaid er mwyn atal pobl rhag colli eu golwg a gwella iechyd y llygaid yng Nghymru. Yn [Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Llygaid](#) amlinellir cynllun pum mlynedd i wella iechyd llygaid pobl Cymru. Nod y cynllun yw annog mwy o bobl i fynd i gael profi eu llygaid yn rheolaidd. Argymhellir y dylai'r rhan fwyaf o bobl gael profi eu llygaid bob dwy flynedd heblaw fod ymarferydd ophthalmig yn argymhell y dylid profi eu llygaid yn amlach na hynny¹¹.

Gofynnai'r Arolwg Cenedlaethol i'r ymatebwyr pa mor aml yr oeddent yn cael profi eu llygaid, pam nad oeddent wedi cael profi eu llygaid yn amlach, a phwy y byddent yn cysylltu â hwy i ddechrau pe bai ganddynt boen neu gochni yn eu llygaid.

Roedd 72% o ymatebwyr yn cael prawf llygaid o leiaf unwaith bob dwy flynedd (7% bob 6 mis, 32% unwaith y flwyddyn a 33% unwaith bob dwy flynedd). Mae 16% o'r ymatebwyr yn cael prawf llygaid yn llai aml na phob dwy flynedd, ac nid yw 12% o bobl erioed wedi profi eu llygaid. Dengys Siart 10 isod fod y gyfran sy'n cael prawf llygaid o leiaf unwaith bob dwy flynedd yn amrywio yn ôl oedran.

Siart 10: Y gyfran a oedd yn cael prawf llygaid o leiaf unwaith bob dwy flynedd, yn ôl oedran



- Roedd 57% o bobl 25 i 44 oed yn cael prawf llygaid o leiaf unwaith bob dwy flynedd, o'i gymharu â 91% o bobl 75 oed neu drosodd.

Roedd 77% o fenywod yn cael prawf llygaid o leiaf unwaith bob dwy flynedd, o gymharu â 66% o ddynion. Mae'r canfyddiad hwn yn debyg i [Arolwg Iechyd Lloegr 2013](#)¹², lle'r oedd 71% o fenywod yn cael profi eu llygaid o leiaf unwaith bob dwy flynedd, o gymharu â 59% o ddynion.

Gofynnwyd i bobl a oedd yn cael prawf llygaid yn llai aml nag unwaith bob dwy flynedd pam nad oeddent yn cael profi eu llygaid yn amlach.¹³ Dywedodd 69% mai'r rheswm am hynny oedd nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau gyda'u llygaid, dywedodd 20% nad oeddent wedi cael nodyn atgoffa, roedd 14% yn rhy brysur, a dywedodd 4% fod profion llygaid yn rhy ddud.

Yng Nghymru, os oes gennych broblem gyda'ch llygaid sydd angen sylw brys, cynghorir mai optometrydd (optegydd) yw'r unigolyn gorau i gysylltu ag ef yn gyntaf. Mae [Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Llygaid](#) hefyd yn anelu i sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r man mwyaf priodol i dderbyn gwasanaethau gofal llygaid. Lansiodd ymgyrch i addysgu'r cyhoedd ym mis Ebrill 2015. Bydd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2014-15 felly'n cael eu defnyddio i fesur unrhyw newid i ymddygiad y cyhoedd ar ôl lansio'r ymgyrch honno.

Gofynnwyd i holl ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol at bwy y byddent yn troi i ddechrau pe bai ganddynt boen neu gochni yn eu llygaid. Dywedodd 60% y byddent yn troi at eu meddyg teulu, 34% at eu hoptegydd, 4% at aelod o'r teulu, 3% at fferyllydd, a dywedodd 3% y byddent yn mynd i'r ysbyty.

¹¹ Ceir mwy o wybodaeth am brofion llygaid [yma](#).

¹² Er bod modd cymharu yn fras, mae'r fethodoleg yn wahanol rhwng Arolwg Iechyd Lloegr ac Arolwg Cenedlaethol Cymru.

¹³ Roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb oes oedd hynny'n briodol.

Bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau iechyd yng Nghymru

Gofynnwyd i bobl am eu barn ar gyflwr cyffredinol gwasanaethau iechyd yng Nghymru, p'un a oeddent wedi defnyddio unrhyw wasanaethau iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf ai peidio. Ar gyfer y cwestiwn hwn, gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried pob agwedd ar wasanaethau'r GIG, o feddygon teulu i fferyllfeydd, deintyddion ac optegwyr y GIG, gwasanaethau iechyd cymunedol ac ysbytai. Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim (eithriadol o wael) a deg (eithriadol o dda). Y sgôr gyfartalog a roddwyd oedd 6.3.


Yn 2012, gofynnodd [Arolwg Cymdeithasol Ewrop](#) (ACE) yr un cwestiwn i ymatebwyr ar draws 29 o wledydd yn Ewrop, gan gynnwys y DU. Nid oedd llawer o wahaniaeth ystadegol rhwng cyfartaledd cenedlaethol y DU yn 2012 (6.3) a chyfartaledd Cymru yn 2014-15 (6.3). Fodd bynnag, y radd gyfartalog ar draws gwledydd Ewrop a gafwyd yn ACE oedd 4.9, sy'n llawer is na chanlyniadau'r DU a Chymru.¹⁴ (Er mwyn cymharu'n fanwl â gwledydd eraill yn Ewrop, sylwch y dylid cymharu canlyniadau Arolwg Cymdeithasol Ewrop o 2012 â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13. Mae'r cymariaethau hyn ar gael mewn [adroddiad ar wahân](#). Bydd ffigurau o Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2014 ar gael ym mis Hydref 2015.)

Roedd pobl a oedd wedi cael apwyntiad yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf yn llawer mwy bodlon â chyflwr cyffredinol y gwasanaeth iechyd, gan roi sgôr gyfartalog o 6.4, na'r rhai nad oeddent wedi cael apwyntiad yn yr ysbyty (6.1). Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol mewn boddhad â'r gwasanaeth iechyd rhwng y rhai a gafodd apwyntiad gyda meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf ar rhai nad oedd edi cael apwyntiad gyda'u meddyg teulu.

Rhoddodd pobl hŷn 75 oed a throsodd a phobl iau 16-24 oed sgôr uwch na'r cyfartaledd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, (7.1 a 6.6 yn y drefn honno), o gymharu â phobl 45 i 64 oed a roddodd sgôr o 6.0.

Dengys Siart 11 fod bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau iechyd yn amrywio yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol. Roedd pobl yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn llawer llai bodlon (5.9) na phobl ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (6.6).

Siart 11: Bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaethau iechyd, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol



Er bod rhai o'r sgorau byrddau iechyd wedi newid o'r Arolwg Cenedlaethol blaenorol yn 2013-14, yr unig newid a oedd yn ystadegol arwyddocaol oedd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, lle bu cynnydd o 6.2 yn 2013-14 i 6.6 yn 2014-15.

¹⁴ Er bod modd cymharu'r canlyniadau'n fras, dylid cofio bod gwahaniaethau rhwng Arolwg Cymdeithasol Ewrop a'r Arolwg Cenedlaethol. Er enghraifft, mae cwestiwn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyflwyniad sy'n annog ymatebwyr i feddwl am yr ystod lawn o ddarpariaeth gofal iechyd.

Gofal cymdeithasol

Mae gofal cymdeithasol yn cyfeirio at y gefnogaeth a roddir i bobl fel yr henoed, plant a phobl ag anableddau neu anghenion cymdeithasol. Mae gofal cymdeithasol hefyd yn anelu i roi cymorth i deuluoedd a gofawyr y bobl hynny.

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) a [Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2015](#) yn darparu'r fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru. Daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2015, a'r Bil yn 2017. Eu pwrpas yw cynyddu lles a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru.


Yn 2014-15, cynhwyswyd amryw o gwestiynau am ofal cymdeithasol yn yr Arolwg Cenedlaethol¹⁵. Bydd y canlyniadau'n darparu gwybodaeth llinell sylfaen am les pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, a chymorth maes o law i fesur effaith y newidiadau a weithredir ym maes gofal cymdeithasol.

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn fy ardal leol'. Atebodd cyfran uchel o bobl 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn, gyda 29% yn gwneud hynny. O'r rhai a roddodd ateb dilys, cytunodd 52% yn cytuno (16% yn cytuno'n gryf a 36% yn tueddu i gytuno), nid oedd 32% yn cytuno nac yn anghytuno, ac yr oedd 15% yn anghytuno (10% yn tueddu i anghytuno a 5% yn anghytuno'n gryf).

Dangoswyd rhestr o enghreifftiau o'r cymorth a gynigir gan ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth yng Nghymru i'r ymatebwyr a gofynnwyd a oeddent wedi derbyn unrhyw gymorth gan y gwasanaethau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd 9% eu bod wedi.

Dengys Siart 12 ymateb pobl i'r cwestiwn hwn, yn ôl eu profiadau o wasanaethau gofal cymdeithasol¹⁶, h.y. y rhai sydd wedi derbyn cymorth ar gyfer eu hunain fel 'defnyddwyr' neu a dderbyniwyd cymorth fel 'gofawyr' a'r rhai nad ydynt wedi derbyn cymorth - 'ddim yn defnyddiwr nac yn ofalwr'.

Siart 12: Y graddau y cytunir â'r datganiad 'mae gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal', yn ôl y profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol



- Pobl a oedd yn derbyn cymorth gan wasanaethau gofal neu wasanaethau cymdeithasol oedd yn fwyaf tebygol o gytuno bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn eu hardal (69%), o gymharu â 62% o bobl a oedd yn ofalwyr a 51% o bobl nad oeddent yn ofalwyr nac yn defnyddio'r gwasanaeth.

¹⁵ Cafodd y cwestiynau eu cynnwys rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Ebrill 2015.

¹⁶ Diffiniwyd 'defnyddwyr' fel y rhai a nododd eu bod yn derbyn cymorth gan wasanaethau gofal a chymorth ar gyfer eu hunain, 'gofawyr' fel y rhai a nododd eu bod yn darparu gofal personol i rywun arall, a'r rhai nad oedd yn nodi un o'r ddau beth fel 'Ddim yn defnyddiwr nac yn ofalwr'. Noder y gall ymatebwyr fod yn ddefnyddiwr ac yn ofalwr.

Dywedodd 13% o 'defnyddwyr' a 'gofalwyr' nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn eu hardal leol, o'i gymharu â 35% o bobl a oedd yn 'ddim yn ddefnyddwyr nac yn ofalwyr'. Gallai hyn awgrymu fod y rhai heb gyswllt uniongyrchol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei chael hi'n fwy anodd i roi barn gadarnhaol neu negyddol ar y gwasanaeth. Gall hyn hefyd esbonio pam fod cyfran mor uchel o bobl wedi ateb 'ddim yn gwybod'.

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi derbyn cymorth yn ystod y 12 mis diwethaf, neu wedi darparu gofal eu hunain, am eu barn ar agweddau amrywiol ar y gwasanaethau. Yr oedd 43% o'r farn fod y bobl a oedd yn rhoi cymorth, gofal, neu gefnogaeth uniongyrchol iddynt hwy, neu i'r sawl yr oeddent yn gofalu amdano, yn ardderchog. Roedd 38% o'r farn eu bod yn dda, ac 12% o'r farn eu bod yn weddol.


Gofynnwyd i bobl a oedd yn derbyn cymorth a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod 'gwasanaethau gofal a chymorth wedi gwella ansawdd eu bywyd'. Yr oedd 71% yn cytuno, nid oedd 13% yn cytuno nac yn anghytuno, ac yr oedd 16% yn anghytuno.

Roedd 32% o'r farn fod y gwasanaethau gofal a chymorth yn gyffredinol yn ardderchog, roedd 39% o'r farn eu bod yn dda a 19% o'r farn eu bod yn weddol. Gofynnwyd y cwestiwn 'Overall, how would you rate your help, care or support services' hefyd yn [Arolwg yr Alban o Brofiadau Iechyd a Gofal 2013/14](#). Yn yr arolwg hwnnw, dywedodd 41% fod y gwasanaethau'n ardderchog, 43% eu bod yn dda, a 12% eu bod yn weddol¹⁷.

Lles y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth

Gofynnwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol i ba raddau yr oeddent yn cytuno¹⁸ neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u bywyd. Mae Siart 13 yn dangos y gyfran a gytunai ('cytuno'n gryf' neu 'tueddu i gytuno') â'r datganiadau amrywiol, yn ôl eu profiadau o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Siart 13: Cytuno â datganiadau amrywiol, yn ôl y profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol



Defnyddwyr gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol oedd yn fwyaf tebygol o gytuno eu bod yn teimlo'n unig yn aml (29%, o gymharu ag 13% o'r rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr nac yn ofalwyr).

Ar gyfer yr holl ddatganiadau eraill, roedd pobl nad oeddent yn ddefnyddwyr nac yn ofalwyr yn gyffredinol yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad na'r rhai a defnyddwyr a gofalwyr¹⁹.

¹⁷ Er bod modd cymharu'r canlyniadau'n fras, dylid gofio'r gwahaniaethau rhwng Arolwg Profiadau Iechyd a Gofal yr Alban a'r Arolwg Cenedlaethol. Er enghraifft, arolwg drwy'r post yw Arolwg yr Alban, a chyfweiliad wyneb yn wyneb yw'r Arolwg Cenedlaethol.

¹⁸ Diffinnir cytuno fel 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno'.

¹⁹ Marciwyd lle nad oes gwahaniaeth 'ystadegol' rhwng y rhai nad oedd yn 'ddefnyddwyr nac yn ofalwyr' a 'gofalwyr' neu 'defnyddwyr' gyda * neu ** yn y drefn honno.

Defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol


Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r rhaglen '[Mwy na geiriau](#)' i gryfhau gwasanaethau yn Gymraeg ymhlith gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ar y rheng flaen. Pwrpas hyn yw bodloni anghenion gofal siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd neu ofalwyr. Holodd yr Arolwg Cenedlaethol ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr feddwl am wasanaethau fel meddygon teulu, ysbytaï'r GIG, gwasanaethau cymdeithasol a'r holl aelodau o staff, o'r meddygon hyd at y derbynyddion, wrth ateb y cwestiynau hyn.

Gofynnwyd i siaradwyr Cymraeg a fyddai'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg â staff iechyd a gofal cymdeithasol, a ph'un a oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â staff iechyd neu ofal cymdeithasol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Dywedodd 64% o siaradwyr Cymraeg y byddai'n well ganddynt gyfathrebu yn Saesneg â staff iechyd a gofal cymdeithasol, 17% yn Gymraeg, ac nid oedd 19% yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall. Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 31% wedi defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol ac roedd 69% heb ddefnyddio'r Gymraeg.

Dengys Siart 14 y cyfran a oedd wedi defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf yn ôl yr iaith a ffafrir i gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Siart 14: Cyfran y siaradwyr Cymraeg a oedd wedi defnyddio'r Gymraeg i siarad â staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl y iaith y dewiswyd i ddefnyddio



O blith y siaradwyr Cymraeg a byddai'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg, roedd 73% wedi defnyddio'r Gymraeg. Roedd 14% o siaradwyr Cymraeg a oedd yn well ganddynt ddefnyddio Saesneg wedi siarad yn Gymraeg gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol yn y 12 mis diwethaf. O'r siaradwyr Cymraeg nad oedd ganddynt unrhyw ffafriaeth gryf, roedd 52% wedi defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Teithio llesol - oedolion

Mae 'teithio llesol' yn golygu cerdded neu feicio i gyrraedd lleoliad arbennig megis gwaith, siopau neu i ymweld â ffrindiau. Daeth [Deddf Teithio Llesol 2013](#) i rym ym mis Tachwedd 2014. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud hi'n ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio a chynllunio llwybrau sy'n addas ar gyfer teithio llesol. Y mae hefyd yn ofynnol iddynt wella'u seilwaith ar gyfer cerdded a beicio drwy sicrhau bod llwybrau teithio llesol yn cysylltu safleoedd allweddol fel gweithleoedd, ysbytai, ysgolion ac ardaloedd siopa. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel dulliau teithio, ac annog pobl i ddibynnu llai ar geir ar gyfer teithiau byr.


Er mwyn helpu i fonitro effaith cyflwyno'r gyfraith hon ar ymddygiad pobl, os o gwbl, cafodd cyfres o gwestiynau eu cynnwys am weithgarwch teithio llesol pobl ar y pryd yn Arolwg Cenedlaethol 2013-14 a 2014-15. Gofynnai'r cwestiynau hyn pa fath o 'deithiau llesol' y bydd pobl yn eu gwneud, i ba gyrchfannau a pha mor aml.

Wrth gyfeirio at 'gerdded' neu 'feicio' isod, sylwch mai cyfeirio a wneir at sefyllfaoedd lle bydd rhywun yn cerdded neu feicio i gyrraedd cyrchfan arbennig, yn hytrach nag i fwynhau, neu i ymarfer corff.

Teithio llesol yn ystod y saith diwrnod diwethaf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa fath o deithio llesol yr oeddent wedi'i wneud yn ystod y saith diwrnod diwethaf. Yr oedd 5% wedi defnyddio beic fel math o drafnidiaeth a 65% wedi cerdded am fwy na phum munud. Gofynnwyd i'r grŵp hwn o ymatebwyr wedyn beth oedd pwrpas eu taith lesol fwyaf diweddar. Dangosir y pwrpasau mwyaf cyffredin a nodwyd ar gyfer cerdded a beicio yn Siart 15.

Siart 15: Pwrpas y 'daith lesol' ddiweddaraf (a)



(a) Cafodd y rhai a ddywedodd eu bod wedi beicio neu gerdded am resymau meddygol, neu i fynd â'u plant i weithgareddau, eu hepgor o'r siart oherwydd bod y niferoedd yn isel.

Dengys Siart 15 mai'r pwrpas mwyaf cyffredin dros gerdded oedd i gyrraedd siopau lleol ar gyfer negeseuon bach, gyda 43% o'r cerddwyr yn nodi hwn fel eu rheswm dros eu taith llesol mwyaf diweddar ar droed. Dilynwyd hyn gan ymweld â ffrindiau a pherthnasau (13%) ac chyrraedd eu gwaith (11%).


Pwrpas mwyaf cyffredin a roddwyd ar gyfer beicio oedd mynd i'r gwaith, lle mae 30% o feicwyr wedi nodi hwn am eu rheswm dros eu taith llesol mwyaf diweddar ar feic. Dilynwyd hyn gan fynd i'r siopau lleol ar gyfer negeseuon bach (22%) a ymweld â ffrindiau a pherthnasau (15%).²⁰

²⁰ Sylwch fod 65% wedi cerdded a 5% wedi beicio. Felly mae 11% o gerddwyr yn cerdded i'r gwaith yn cynrychioli nifer fwy o bobl nag 30% o feicwyr yn beicio i'r gwaith.

Pa mor aml y bydd pobl yn cerdded neu'n defnyddio beic fel ffordd o deithio

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr pa mor aml yr oeddent wedi cerdded neu ddefnyddio beic fel ffordd o deithio dros y tri mis blaenorol. Gofynnwyd iddynt ystyried teithiau lle'r oeddent wedi cerdded neu ddefnyddio beic ar gyfer y daith gyfan yn ogystal â theithiau lle'r oeddent wedi cerdded neu ddefnyddio beic ar gyfer rhan o'r daith, (ee, cerdded/beicio i gyrraedd gorsaf drenau). Mae Siart 16 yn dangos pa mor aml yr oedd dynion a menywod wedi cerdded neu ddefnyddio beic ar daith gyfan, neu ar ran o daith.

Siart 16: Pa mor aml y mae pobl yn cerdded neu'n defnyddio beic fel ffordd o deithio, yn ôl rhyw



Dengys Siart 16 fod dynion yn fwy tebygol na menywod o fod wedi beicio neu gerdded fel ffordd o deithio dros y tri mis blaenorol. Yr oedd 9% o ddynion wedi beicio o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos o gymharu â 3% o fenywod. Yr oedd 67% o ddynion wedi cerdded am fwy na phum munud o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos o gymharu â 62% o fenywod.


Roedd pobl iau yn fwy tebygol na phobl hŷn o fod wedi cerdded neu ddefnyddio beic fel ffordd o deithio yn ystod y tri mis diwethaf, ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny'n amlach. Yr oedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny na phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (68% mewn ardaloedd trefol, o gymharu â 54% mewn ardaloedd gwledig). Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny'n amlach, gyda 22% o bobl mewn ardaloedd trefol yn cerdded bob dydd, o gymharu ag 16% o bobl mewn ardaloedd gwledig.

Teithio llesol - dull o gyrraedd yr ysgol

Nod [Cynllun Gweithredu Teithio Llesol](#) Llywodraeth Cymru yw cynyddu cyfran y plant sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol. Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau ynghylch dull plant o deithio i'r ysgol yn 2013-14 a 2014-15. Gofynnwyd i rieni plant oed cynradd ac uwchradd sut oedd eu plant fel arfer yn teithio i'r ysgol, a pha mor bell oedd y daith.

Dengys Siart 17 y dulliau teithio a ddefnyddir amlaf i gyrraedd yr ysgol, a sut mae hyn yn amrywio yn ôl y pellter teithio.

Siart 17: Dull teithio a ddefnyddir fel arfer gan blant i gyrraedd yr ysgol (a)



(a) Roedd yr ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un dull teithio, felly nid yw'r canlyniadau'n creu cyfanswm o 100%.

Dengys Siart 18 fod dros 74% o blant mewn ysgolion cynradd ac 87% o blant mewn ysgolion uwchradd fel arfer yn cerdded i'r ysgol, pan oedd yr ysgol o fewn milltir i'r cartref. Roedd plant mewn ysgolion cynradd yn tueddu i gerdded i'r ysgol gydag oedolyn tra'r oedd y mwyafrif a gerddai i ysgol uwchradd naill ai'n cerdded ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill. Roedd plant ysgol uwchradd yn tueddu i deithio ymhellach, ac yn fwy tebygol o fynd i'r ysgol ar fws na phlant ysgol gynradd. Roedd 71% o blant ysgol gynradd a oedd yn byw dros filltir o'r ysgol yn tueddu i gael eu cludo i'r ysgol mewn car, ond dim ond 35% o blant ysgol uwchradd a oedd yn byw yr un mor bell o'r ysgol oedd yn cael eu cludo yn y car.


Cafwyd patrwm tebyg yng nghanlyniadau 2013-14.

Llythrennedd a rhifedd - cymorth gan rieni

Mae ymchwili wedi dangos yn gyson y gall rhieni cefnogol ac amgylchedd dysgu da gartref helpu i wella datblygiad gwybyddol plant a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w cyflawniad yn yr ysgol. Un o brif ganfyddiadau [Astudiaeth Carfan y Mileniwm](#) 2011 oedd mai lefel cymwysterau'r rhieni yw'r ffactor cryfaf sy'n rhagfynegi datblygiad gwybyddol.

Yn Arolwg Cenedlaethol 2014-15, gofynnwyd i rieni plant 3 i 7 oed feddwl am un plentyn (drwy ddewis ar hap os oedd mwy nag un plentyn yn y grŵp oedran hwn) ac ateb cwestiynau ynghylch pa mor aml yr oeddent yn helpu eu plentyn gyda mathemateg neu rifau, ac yn helpu i ddysgu am lythrennau neu'n helpu i ddarllen ac ysgrifennu. Dangosir y canlyniadau yn Siart 18.

Siart 18: Cymorth gan rieni - plant 3 i 7 oed




Roedd 81% o rieni'n helpu eu plentyn i ddysgu am lythrennau neu'n helpu gyda darllen ac ysgrifennu o leiaf sawl gwaith yr wythnos, ond 69% o rieni'n helpu eu plentyn gyda mathemateg neu rifau yr un mor aml.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond y rhiant a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd iddo faint o amser yr oedd yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau amrywiol gyda'u plentyn. Ni chasglwyd gwybodaeth am yr amser yr oedd y rhiant arall, nac yr oedd yr un oedolyn arall, yn ei dreulio'n gwneud yr un gweithgareddau â'r plentyn.

Canfu'r adroddiad ymchwil [Review of best practice in parental engagement](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2011 gysylltiad cryf rhwng sgiliau llythrennedd a rhifedd y teulu a deilliannau academiaidd y plentyn. Argymhellir hefyd fod angen i ysgolion neu asiantaethau eraill gynyddu hyder rhieni er mwyn i'w plant ddysgu yn well.


Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i rieni plant 3 i 11 oed (gan ddewis y plentyn ar hap unwaith eto). Canolbwyntiai'r cwestiynau hyn ar hyder yr ymatebydd yn ei allu ei hun i helpu ei blentyn gyda darllen, ysgrifennu a mathemateg. Dangosir y canlyniadau yn Siart 19.

Siart 19: Pa mor hyderus yw rhieni wrth helpu plentyn 3 i 11 gyda mathemateg a Saesneg



Roedd dros 75% o rieni'n teimlo'n hyderus iawn wrth helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg. I'r gwrthwyneb, llai na 60% a deimlai'n hyderus iawn ynglŷn â'u gallu i helpu gyda mathemateg. Er hyn gwelwyd yn Siart 20 fod siaradwyr Cymraeg yn fwy hyderus yn helpu eu plentyn i ysgrifennu yn Saesneg (85%) nag oedd rhieni yn gyffredinol (76% - o Siart 19). Fodd bynnag, mae Siart 20 hefyd yn dangos bod cyfran y siaradwyr Cymraeg a oedd yn hyderus iawn gan helpu eu plant i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn sylweddol is na'r gyfran o'r un rieni a oedd yn hyderus iawn yn helpu eu plentyn yn darllen nac ysgrifennu yn Saesneg.

Siart 20: Pa mor hyderus yw rhieni sy'n siarad Cymraeg wrth helpu plentyn 3 i 11 gyda'r Gymraeg



Safbwyntiau ar y system addysg yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru am ganfod barn pobl ar y system addysg yng Nghymru, o groestoriad o bobl, nid rhieni yn unig.


Gofynnai'r Arolwg Cenedlaethol i bobl am eu barn ynghylch cyflwr addysg yng Nghymru. Roedd yr ateb ar raddfa o ddim i ddeg, lle'r oedd dim yn 'eithriadol o wael' a deg yn 'eithriadol o dda'. 6.6 oedd yr ateb cyfartalog i'r Arolwg Cenedlaethol. 12% oedd cyfran y bobl a atebodd "Ddim yn gwybod" i'r cwestiwn hwn (18% mewn cartrefi heb blant dan 19 oed; 2% mewn cartrefi a oedd yn cynnwys plant dan 19 oed). Yn yr un modd â'r holl gwestiynau eraill, hepgorwyd y nifer a atebodd "Ddim yn gwybod" wrth ddadansoddi.

Ers datganoli, mae polisiâu addysg pedair gwlad y DU wedi ymwahanu: er enghraifft, yn Lloegr cyflwynwyd diwygiadau yn seiliedig ar amrywiaeth o fathau o ysgolion a dewis rhieni; yng Nghymru (ac yn yr Alban) erys ymrwymiad i ysgolion cyfun yn y gymuned. Felly, mae'n ddiddorol edrych ar y canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol mewn cyd-destun ehangach.

Gofynnwyd yr un cwestiwn yn [Arolwg Cymdeithasol Ewrop](#) yn 2012. Cyfartaledd y DU yn yr arolwg hwnnw oedd 5.9, a'r cyfartaledd ar draws gwledydd Ewrop oedd 5.0. Er mwyn cymharu'n fanwl â gwledydd eraill yn Ewrop, sylwch y dylid cymharu canlyniadau Arolwg Cymdeithasol Ewrop o 2012 â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13. Mae'r cymariaethau hyn ar gael yn yr [adroddiad ar wahân](#) hwn. Bydd ffigurau o Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2014, fydd yn fwy addas i'w cymharu ag Arolwg Cenedlaethol 2014-15, ar gael ym mis Hydref 2015.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru'n gyfrifol am eu cyllideb addysg. Cânt gyfle sylweddol i benderfynu faint o arian y gellir ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau lleol. Dangosir graddau'r bodlonrwydd cyffredinol ag addysg fesul ardal awdurdod lleol yn Siart 21.

Siart 21: Y sgôr gyfartalog a roddwyd ar gyfer cyflwr addysg yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol (a)



(a) Rhoddwyd atebion ar raddfa o ddim (eithriadol o wael) i ddeg (eithriadol o dda).

Pobl yng Nghonwy a roddodd y sgôr gyfartalog uchaf ar gyfer cyflwr addysg (7.2), tra fod pobl ym Mhowys yn rhoi'r sgôr cyfartalog isaf (6.1). Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf bu gwahaniaeth sylweddol rhwng yr awdurdod lleol â'r sgôr cyfartalog isaf a'r un gyda'r uchaf. Fodd bynnag, mae'r trefn yr awdurdodau lleol, yn ôl gradd, wedi amrywio dros y tair blynedd.

Defnydd a mynediad i'r rhyngwrwd


Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau'r nifer cyffredinol o bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd a thargeddu cymorth at rannau penodol o'r boblogaeth i sicrhau bod dinasyddion yn manteisio'n llawn ar y budd economaidd a chymdeithasol a gynigir gan y rhyngwrwd. Mae nodi'r nifer, y gyfran a'r mathau o bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro ei chynnydd yn erbyn yr amcanion hyn. Mae tystiolaeth o ddefnydd a mynediad i'r rhyngwrwd wedi llywio polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant digidol, gweler [Cynhwysiant digidol](#) a [Cymru Ddigidol](#).²¹ Dangosodd ymchwil pellach, fwy o gyd-destun ychwanegol ar y pwnc yma, drwy ail-gysylltu a rhai o'r bobl nad oedd yn defnyddio'r rhyngwrwd yn ôl Arolwg Cenedlaethol 2013-14. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

Yn yr Arolwg Cenedlaethol yn 2014-15, gofynnwyd i'r ymatebwyr lle maent yn cysylltu â'r rhyngwrwd, pa ddyfeisiau y maent yn eu defnyddio a pha weithgareddau y maent yn defnyddio'r rhyngwrwd ar eu cyfer. Canfu'r arolwg fod gan 78% o gartrefi fynediad i'r rhyngwrwd. Mae hyn wedi cynyddu o 75% yn 2013-14 a 73% yn 2012-13. Bydd tablau'n dangos canlyniadau'r gyfres gyntaf hon o gwestiynau'n cael eu cyhoeddi'n fuan, ac maent i'w cael ar [StatsCymru](#) ynghyd â'r canlyniadau o flynyddoedd blaenorol.

Roedd [adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu](#) yn 2014 yn amcangyfrif bod gan 80% o gartrefi yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwd ym mis Ion-Mawrth 2014, o gymharu ag 82% ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod Cymru wedi cau'r bwlch â chyfartaledd y DU: y ffigurau cymaradwy ar gyfer Ion-Mawrth 2013 oedd 75% o gartrefi a chanddynt fynediad i'r rhyngwrwd yng Nghymru, ac 80% yn y DU. Er bod canfyddiadau Ofcom yn defnyddio methodoleg ac amser gwahanol i'r Arolwg Cenedlaethol, mae'n dangos fod twf parhaus mewn mynediad i'r rhyngwrwd.

Cafodd rhai cwestiynau newydd eu cyflwyno ynglŷn â'r rhyngwrwd yn 2014-15. Gofynnwyd i bobl a oeddent wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd drwy gyswllt band eang. Dywedodd 21% o gartrefi a chanddynt fynediad i'r rhyngwrwd fod ganddynt fand eang cyflym iawn, dywedodd 77% fod ganddynt fand eang ond nid band eang cyflym iawn (neu roeddent yn ansicr a oedd y cyswllt yn un cyflym iawn) a dywedodd 2% nad oeddent yn defnyddio band eang i gysylltu â'r rhyngwrwd gartref. Gofynnwyd i ddefnyddwyr band eang hefyd a oeddent yn fodlon â chyflymder y cyswllt; dangosir y canlyniadau yn Siart 22.

Siart 22: Math o ryngwrwd yn ôl bodlonrwydd â chyflymder y cyswllt




Roedd 86% o gartrefi a chanddynt fand eang cyflym iawn yn fodlon â chyflymder y cyswllt, tra'r oedd 10% yn anfodlon. O'r cartrefi hynny a chanddynt gyswllt band eang nad oedd yn gyflym iawn (neu nad oeddent yn siŵr a oedd y cyswllt hwnnw'n gyflym iawn), roedd 66% yn fodlon a 26% yn anfodlon â chyflymder y cyswllt.

²¹ Mae targedau Llywodraeth Cymru'n seiliedig ar bobl 18+ oed, felly wrth ddefnyddio'r term 'pobl' yn yr adran hon, cyfeirir at bobl dros 18 oed (oni nodir fel arall).

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn bersonol gartref, yn y gwaith, neu yn unrhyw le arall. Dywedodd 81% o bobl eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd, mae hyn wedi cynyddu o 79% yn 2013-14 a 76% yn 2012-13. Roedd y defnydd personol hwn yn amrywio yn ôl oedran, fel y dangosir yn Siart 23. Roedd 99% o bobl 18 i 24 oed yn defnyddio'r rhyngwrwyd, o gymharu â 29% o bobl 75 oed a throsodd.

Siart 23: Defnydd personol o'r rhyngwrwyd, yn ôl grŵp oedran



Gofynnai'r Arolwg hefyd am y dyfeisiau yr oedd pobl yn eu defnyddio i gael mynediad i'r rhyngwrwyd. Y tair dyfais a oedd yn cael eu defnyddio amlaf i gael mynediad i'r rhyngwrwyd oedd: gliniadur gartref neu yn y gwaith (66%); ffôn symudol neu ffôn clyfar (60%); a chyfrifiadur desg (38%). Fodd bynnag, ers 2013-14 hyd yn oed, cafwyd newid amlwg ym mhatrwm y dyfeisiau a ddefnyddir i gael mynediad i'r rhyngwrwyd. Mae'r gyfran sy'n ddefnyddio cyfrifiadur pen-desg wedi parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn – yn disgyn o 52% yn 2012-13 i 38% yn 2014-15.


e-Ddiogelwch

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am ddiogelwch plant ar y rhyngrwyd ("e-Ddiogelwch") fel rhan o'r [Rhaglen ddysgu yn y Gymru Ddigidol](#). Gyda'r cynnydd cyflym mewn dyfeisiau sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd, mae plant a phobl ifanc yn dysgu sgiliau newydd ac yn cynyddu eu gwybodaeth yn annibynnol. Fodd bynnag, gallant hefyd ddod i gysylltiad â risgiau posibl ar y we, ac efallai y bydd rhai rhieni'n teimlo nad ydynt yn gallu ymdrin â'r risgiau hynny, oherwydd diffyg profiad neu ddiffyg hyder wrth ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Yn [Astudiaeth Carfan y Mileniwm](#) (ACM) 2011 canfuwyd bod gan dri chwarter o blant 11 oed eu ffôn symudol eu hunain, gan olygu eu bod yr un mor debygol o gysylltu â ffrindiau drwy ddefnyddio technoleg â chysylltu wyneb yn wyneb. Roedd gan bron bob un o'r plant hefyd fynediad at gyfrifiadur a'r rhyngrwyd yn 11 oed, ac roedd gan y mwyafrif deledu yn eu hystafell wely. Canfu ACM fod y rhan fwyaf o rieni'n gosod rheolau ynglŷn â'r cynnwys y gallai plant ei gyrchu, ond prin yw'r gwaith ymchwil sydd ar gael am Gymru yn benodol. Penderfynwyd felly y dylid ychwanegu cwestiynau am e-Ddiogelwch at Arolwg Cenedlaethol 2014-15.

Dengys Siart 24 y ffynonellau lle byddai rhieni'n cael cyngor neu wybodaeth ynghylch diogelu eu plentyn ar y rhyngrwyd. Dywedodd 50% o'r rhieni a holwyd y byddent yn cael hyd i gyngor ar-lein, tra dywedodd 24% y byddent yn gofyn am gyngor neu wybodaeth yn ysgol eu plentyn. Yr oedd rhieni eraill a ffrindiau yn ffynhonnell arall a nodwyd yn aml (19%). Llai na 6% o rieni a ddefnyddiai daflenni neu wefan 'Thinkuknow' er mwyn cael gwybodaeth.

Siart 24: Ffynonellau cyngor neu wybodaeth i rieni ynghylch diogelwch plant ar y rhyngrwyd



a) Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ffynhonnell, felly nid yw'r canlyniadau'n creu cyfanswm o 100%

Gofynnwyd i rieni plant 7 i 15 oed a oeddent yn defnyddio hidlyddion rheolaeth rhieni, fel 'Net Nanny' neu hidlyddion eraill yr oedd eu darparrydd gwasanaeth rhyngrwyd yn eu darparu. Dywedodd 56% eu bod yn defnyddio'r hidlyddion yn eu cartrefi, roedd 32% wedi clywed amdanynt ond heb eu defnyddio, ac nid oedd 12% erioed wedi clywed amdanynt.

Gofynnwyd i'r rhieni hefyd a oeddent wedi dweud wrth eu plant sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Roedd 75% wedi dweud wrth eu plant na ddylent fynd i rai gwefannau; roedd 91% wedi dweud na ddylent rannu gwybodaeth bersonol; roedd 84% wedi dweud na ddylent gwrdd wyneb yn wyneb â rhywun nad oeddent ond wedi cwrdd ag ef ar-lein; ac 89% wedi dweud na ddylent siarad â phobl ddieithr ar-lein.

Gofynnwyd i rieni â phlentyn 7 i 15 oed pa ddyfais yr oedd eu plentyn yn ei ddefnyddio i gysylltu â'r we, yn lle yr oedd yn cysylltu â'r we, a'r rhesymau dros ddefnyddio'r we. Gellir gweld y canlyniadau [yma](#) yn nhablau StatsCymru.


Gwefannau gwasanaethau cyhoeddus

Un o'r camau allweddol yn y [Rhaglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru yw i gefnogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Un ffordd o wneud hynny yw drwy ddarparu gwasanaethau ar-lein ac annog a chefnogi sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud yr un peth. Mae set o gwestiynau wedi cael eu hychwanegu at yr Arolwg Cenedlaethol yn 2014-15 fel ffordd o fesur i ba raddau y llwyddir i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r gwefannau hyn.

Dangoswyd rhestr o wefannau gwasanaethau cyhoeddus neu Lywodraeth Cymru i bobl a ddefnyddiai'r rhyngwrwyd o leiaf unwaith yr wythnos. Gofynnwyd a oeddent wedi ymweld ag unrhyw un o'r gwefannau am resymau personol yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ac a oeddent yn fodlon â'u hymweliad diweddaraf. Dywedodd 62% eu bod wedi ymweld ag un o'r gwefannau hyn, ac roedd 90% yn fodlon â'r profiad a gawsant.

Gofynnwyd hefyd i bobl a oeddent wedi cwblhau trafodiad ar-lein wrth ymweld â gwefan gwasanaethau cyhoeddus lleol. I ddibenion y cwestiwn hwn, mae trafodiad yn cynnwys gweithrediadau fel: trefnu apwyntiad mewn meddygfa neu ganolfan hamdden, hysbysu am broblem fel tyllau yn y ffordd, graffiti; gwneud cais am fudd-daliadau lleol - ee, prydau ysgol am ddim, gostyngiadau i'r dreth gyngor; talu biliau; a gwasanaethau eraill fel adnewyddu llyfrau llyfrgell. Roedd 41% wedi cwblhau trafodiad ar-lein. Dengys y canlyniadau yn ôl gwahanol grwpiau oedran yn Siart 25.

Siart 25: Y gyfran sydd wedi cwblhau trafodiad ar-lein ar wefan gwasanaeth cyhoeddus lleol, yn ôl grŵp oedran



Pobl 25 i 64 oed, a oedd wedi ymweld â gwefannau gwasanaethau cyhoeddus, oedd y grŵp a oedd yn fwyaf tebygol o gwblhau trafodiad ar-lein (44%). Yn y grŵp oedran ieuengaf (16 i 24) yr oedd y gyfran isaf a gwblhaodd drafodiad (28%), ond efallai mai prinder y deiliaid tai yn y grŵp oedran hwn oedd yn gyfrifol am hyn. Roedd 40% o'r rhai 65 oed a throsodd wedi cwblhau trafodiad ar wefan gwasanaeth cyhoeddus yn y 12 mis blaenorol.

Ymdeimlad o gymuned

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru [Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru](#), a gyhoeddwyd yn 2009, yn nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gwella cydlyniant cymunedol. Defnyddir y term 'cydlyniant cymunedol' i olygu pobl sy'n byw ochr yn ochr â'i gilydd gan ddeall a pharchu ei gilydd, lle caiff pob unigolyn gyfle cyfartal i gymryd rhan a mynediad cyfartal i wasanaethau.


Defnyddiwyd yr Arolwg Byw yng Nghymru i roi tystiolaeth sylfaenol ar gyfer y broses o ddatblygu'r strategaeth hon. Cafodd cwestiynau am gydberthynas pobl â'i gilydd yn eu hardal leol eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol fel y gellid monitro a mesur effaith prosiectau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn ogystal â monitro [Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol](#)

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol a oedd ymatebwyr yn cytuno:

- bod pobl o wahanol gefndiroedd dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a
- bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.

Cytunai 79% fod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda â'i gilydd yn eu hardal leol. Roedd 79% yn cytuno fod pobl yn eu hardal leol yn trin y naill a'r llall â pharch ac ystyriaeth.²² Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol na phobl ifanc o fod â safbwynt cadarnhaol am bobl yn eu hardal leol, fel y dengys yn Siart 26.

Siart 26: Cyfran y bobl a gytunai â datganiadau am bobl yn eu hardal leol, yn ôl oedran



- Dywedodd 88% o bobl 75 oed a throsodd fod pobl yn eu hardal leol yn trin y naill a'r llall â pharch ac ystyriaeth, o gymharu â 68% o bobl 16 i 24 oed.

- Roedd 84% o'r rhai 75 oed a throsodd yn meddwl bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal leol, o gymharu â 74% o bobl 25 i 44 oed.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent yn teimlo fel eu bod yn perthyn i'w hardal leol. Roedd 82% yn teimlo eu bod, canran sy'n llai nag yn 2013-14 pan roedd 85% yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal.

Roedd [Arolwg Bywyd Cymunedol 2013-14](#) yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau am gydlyniant cymunedol. Canfu'r arolwg y canlynol ymhlith pobl yn Lloegr:

- Cytunai 85% fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd un eu cymdogaeth;
- Cytunai 60% fod pobl yn eu cymdogaeth yn cydweithio i wella'r gymdogaeth
- Roedd 70% teimlad cryf o berthyn i'w cymdogaeth, gostyngiad o'i gymharu â 2012-13 (78%) a'r holl flynyddoedd eraill ers 2005.

Nid oes modd cymharu'r rhan fwyaf o gwestiynau am gydlyniant cymunedol yn yr Arolwg Cenedlaethol yn uniongyrchol â'r cwestiynau a gafodd eu cynnwys ar yr un pwn yn yr Arolwg Bywyd Cymunedol, oherwydd y gwahaniaeth rhwng geiriad y cwestiynau a'r atebion posibl, ond mae canlyniadau'r Arolwg Bywyd Cymunedol yn rhoi cyd-destun defnyddiol.

²² Diffinnir 'cytuno' fel y rhai a ddywedodd 'cytuno'n gryf' neu 'tueddu i gytuno'.


Cyllid personol

Nod [Strategaeth Cynhwysiant Ariannol](#) Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gwasanaethau ariannol (e.e. cyngor ar fudd-daliadau a dyledion, addysg ariannol sylfaenol, cyfrifon banc a benthyciadau) ar gael am bris fforddiadwy i bobl ddfreintiedig a phobl ar incwm isel. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi [Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig i Gymru](#) yn ddiweddar gydag amcan newydd i gefnogi teuluoedd i gynyddu incwm eu cartref trwy ddarparu mynediad i gyngor ar ddyledion a materion ariannol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall i ba raddau y ceir unrhyw ddiffyg o ran darpariaeth neu yn nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau sydd ar gael a pha fath o bobl yr effeithir arnynt, wrth iddi ddatblygu ei dull gweithredu i sicrhau y gall pawb yng Nghymru fanteisio ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiwn ar p'un a oedd pobl yn cael unrhyw anawsterau wrth dalu biliau ac ad-dalu benthyciadau. Dywedodd 60% o bobl nad oeddent yn cael unrhyw anawsterau wrth ymdopi â'u biliau ac ymrwymadau ariannol. Dywedodd 35% eu bod yn cael trafferth o bryd i'w gilydd, dywedodd 8% eu bod yn cael trafferth yn barhaus, a dywedodd 2% eu bod ar ei hôl hi gyda rhai biliau ac ymrwymadau credyd; dywedodd 1% eu bod yn cael trafferthion ariannol gwirioneddol ac wedi methu talu nifer o filiau, a dywedodd 3% nad oedd ganddynt unrhyw filiau.

Bu cynnydd sylweddol yn y gyfran o bobl a oedd yn gallu cadw i fyny gyda'u biliau. Yn 2012-13 a 2013-14, roedd cyfran is o bobl (48% a 50% yn y drefn honno, o gymharu â 60% yn 2014-15) yn gallu cadw i fyny gyda'u biliau heb anhawster. Mae Siart 27 yn dangos sut y mae'r ymateb i'r cwestiwn yma wedi newid ers 2012-13, yn ôl grŵp oedran.

Siart 27: Gallu ymdopi â'u holl filiau ac ymrwymadau heb anawsterau, yn ôl oedran



Ar gyfer pob grŵp oedran, roedd canran uwch o bobl yn gallu cadw i fyny gyda'u biliau heb anhawster nag yn 2012-13 a 2013-14. Fel yn y ddwy flynedd blaenorol, roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o allu ymdopi â'u biliau a'u hymrwymadau credyd heb anawsterau o gymharu â phobl ifanc. Roedd 79% o bobl 75 oed neu drosodd yn gallu ymdopi â'u holl filiau heb anawsterau, o gymharu â 47% o bobl o dan 24 oed.

Yn 2014-15, dywedodd 4% eu bod wedi defnyddio gwasanaethau sefydliadau sy'n rhoi cyngor a chymorth ar broblemau dyledion yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd 6% o bobl rhwng 25 a 44 wedi ddefnyddio gwasanaethau sefydliad cymorth dyledion, o gymharu â 1% o bobl 75 oed a throsodd.


Amddifadedd materol (adran wedi'i ddiwygio 14 Medi 2015)

Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Thlodi yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwella profiadau cartrefi ag incwm isel yng Nghymru. Eu nod yw lleihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygrwydd o dlodi yn y dyfodol.


Un ffordd o fesur tlodi yw gofyn cwestiynau am amddifadedd materol (hynny yw, a yw'r cartref yn methu fforddio pethau fel cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, neu gael gwylliau unwaith y flwyddyn). Pwrpas cwestiynau am amddifadedd materol yw casglu gwybodaeth am sgil-ffeithiau tlodi hirdymor mewn cartrefi, yn hytrach na straen ariannol byrdymor.

Yn 2014-15, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau a gymerwyd o [Arolwg Adnoddau'r Teulu](#)²³ ynghylch amddifadedd materol mewn cartrefi ac ymhlith plant. Gofynnwyd y cwestiynau hyn er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o nifer y bobl sy'n dioddef amddifadedd materol yng Nghymru, ac amgylchiadau'r bobl hynny. Dangoswyd y cwestiynau a ofynnwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol ar amddifadedd materol ac amddifadedd materol plant a'u canlyniadau yn y siartiau isod.

Siart 28: Amddifadedd materol



Siart 29: Amddifadedd materol ymhlith plant (a)



* Roedd hyn yn cyfuno'r rhai a allai ymdopi â biliau 'heb unrhyw drafferth'; 'ond mae'n anodd weithiau' ac 'mae'n anodd drwy'r amser'.
(a) Dim ond i bobl oedd yn rhieni i blant 16 oed ac iau y gofynnwyd y cwestiynau hyn iddynt.

²³ Mae'r [Arolwg Adnoddau Teuluoedd](#) yn arolwg ar draws y DU sy'n casglu gwybodaeth fanwl am incwm a budd-daliadau, cynilon a buddsoddiadau, galwedigaeth a chyflogaeth, cyfranogiad pensiwn, anabledd, deiliadaeth tai a gofalgwyr.

Fel y gwelir yn Siartiau 28 a 29, gall y rhan fwyaf o bobl fforddio'r rhan fwyaf o eitemau ar y rhestr. Yr eitem yr oedd pobl yn lleiaf tebygol o allu fforddio oedd gwyliu oddi cartref unwaith y flwyddyn am wythnos o leiaf, heb aros gyda pherthnasau. Roedd 63% yn mynd ar eu gwyliu, ond ni allai 22% fforddio hynny, a dywedodd 15% nad oedd angen gwyliu arnynt, neu nad oeddent eisiau gwyliu. Gofynnwyd wedyn i'r rhai nad oedd yn mynd ar wyliau 'heb aros gyda pherthnasau', a oeddent yn mynd ar eu gwyliu i 'aros gyda pherthnasau', roedd 20% ohonynt yn gwneud hyn, dywedodd 31% nad oeddent yn gallu fforddio hyn chwaith a dywedodd 49% eu bod ddim angen neu eisiau gwyliu.

Yn siart 29, gwelwn ar gyfer y rhan fwyaf o'r eitemau a restrir ar gyfer plant, fod 2% neu lai yn datgan na allent eu fforddio. Dywedodd 4% nad oeddent yn gallu fforddio i'w plant fynychu o leiaf un gweithgaredd a drefnwyd yn reolaidd yr wythnos y tu allan i'r ysgol a 9% nad oeddent yn gallu fforddio i bob plentyn o 10 neu drosodd o ryw gwahanol gael ystafell gwely eu hunain. Ar gyfer rhai eitemau, (ee cael ffrindiau draw i de, mynychu gweithgaredd a drefnwyd rheolaidd ac mynd i grŵp plant bach / meithrinfa / cylch chwarae) roedd cyfran yn fwy yn dweud nad oedd angen y rhain ar eu plentyn, gallai hyn fod oherwydd oedran y plentyn o dan sylw.

Tra fod y canlyniadau a ddangosir yn siartiau 28 a 29 yn ddiddorol yn eu hawl eu hunain, prif bwrpas gofyn y set hon o gwestiynau oedd i edrych ar bob un o'r eitemau hyn gyda'i gilydd, er mwyn diffinio'r rheiny sy'n dioddef amddifadedd materol²⁴. Mae hyn yn ffordd werthfawr o ddadansoddi pynciau eraill yn yr arolwg (ee, lles neu brofiad o wasanaethau cyhoeddus) yn ôl a yw'r ymatebydd yn dod o gartref lle ceir amddifadedd ai peidio.

Er bod canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn rhoi mwy o fanylion nag a oedd ar gael yn flaenorol ar gyfer Cymru, [Arolwg Adnoddau'r Teulu](#)²⁵ yw'r brif ffynhonnell wybodaeth o hyd ynghylch amddifadedd materol yn y DU.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol ystyrir fod 16%²⁶ o bobl yng Nghymru yn dioddef amddifadedd materol²⁷ ac ystyrir bod 9% o rieni â phlant sy'n dioddef amddifadedd materol²⁸. Nid yw'r [Arolwg Adnoddau Teuluol](#) ar hyn o bryd yn cyhoeddi sgôr amddifadedd materol cyffredinol ar gyfer oedolion, ond cyhoeddwyd yn 2011-14, fod 17% o blant yng Nghymru mewn amddifadedd materol ac incwm isel. Roedd hyn yn uwch na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (13%, 11% a 11% yn y drefn honno)²⁵.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, roedd 41% o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn dioddef amddifadedd materol. Gellir cymharu hyn â 27% sydd mewn llety rhent preifat a 8% sydd mewn cartrefi perchen-feddianwyr. Pobl yn eu 30au oedd y grŵp oedran a oedd yn fwyaf tebygol o fyw mewn cartref lle ceir amddifadedd materol. Roedd 23% o bobl 30 i 39 oed yn dioddef amddifadedd materol, o gymharu â 6% o bobl 70 oed a throsodd. Roedd pobl a chanddynt lefelau uwch o gymwysterau²⁹ yn llai tebygol o fod mewn amddifadedd materol (8%) o gymharu â phobl heb unrhyw gymwysterau (24%). Roedd 37% o bobl oed gwaith³⁰, ond sy'n byw mewn cartref lle nad oedd oed gwaith yn gweithio, yn dioddef amddifadedd materol o gymharu ag 11% sy'n byw mewn cartref lle'r oedd o leiaf un unigolyn oed gwaith³⁰ yn gweithio.

²⁴ Cyfrifir y sgôr ar gyfer amddifadedd materol fel bo gan y sawl a all fforddio popeth a restrir yn siartiau 28 a 29 sgôr o 0 a'r sawl nad oes ganddo'r eitemau hyn, ond sy'n dymuno eu cael, sgôr o 100. Rhoddir sgôr uwch i gartrefi nad oes ganddynt yr eitemau hynny sydd eisoes i'w cael gan y mwyafrif. Ystyrir bod rhai a chanddynt sgôr o 25 neu fwy yn dioddef 'amddifadedd materol'. Am fwy o wybodaeth ar sut y cyfrifwyd y sgôr, cysylltwch â thîm yr [Arolwg Cenedlaethol](#)

²⁵ Mae'r Arolwg Adnoddau'r Teulu yn cynnwys cwestiynau tebyg i'r Arolwg Cenedlaethol ond hefyd yn defnyddio 'incwm' (ni chesglir gwybodaeth ynghylch hyn yn yr Arolwg Cenedlaethol) i gyfrifo'i sgôr amddifadedd materol. Oherwydd y gwahaniaeth hwn a rhwng y pynciau a drafodir yn yr arolwg (hy, ei ffocws mwy ar incwm a fforddiadwyedd) ni ellir ei gymharu â'r Arolwg Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd canlyniadau'r ddau arolwg yn dangos tueddiadau tebyg.

²⁶ Diwygiad: Mae'r ganran yma, a'r canrannau eraill a ddyfynnir o'r fan hon hyd ddiwedd y bennod ar amddifadedd materol wedi eu diwygio, oherwydd y gwallau a ganfuwyd yn y dull gwreiddiol a ddefnyddiwyd i ddeillio amddifadedd materol.

²⁷ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio'r amrywiannau a ddangosir yn Siart 28, ceir mwy o fanylion yn 'termau a diffiniadau' yn yr atodiad.

²⁸ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio'r amrywiannau a ddangosir yn Siart 28 a 29, ceir mwy o fanylion yn 'termau a diffiniadau' yn yr atodiad.


²⁹ Gweler [termau a diffiniadau](#) am ddiffiniad o lefelau cymhwyster

³⁰ Mae 'oed gwaith' yn cael ei ddiffinio fel y rhai rhwng 16 a 65 oed, ac eithrio'r rhai 16-19 oed sydd mewn addysg llawn amser

Mae amddifadedd materol yn fwy tebygol ymhlith y rhai yn yr ardaloedd trefol na'r rhai mewn ardaloedd gwledig: ystyrir bod 17% o bobl mewn ardaloedd trefol mewn amddifadedd materol, o gymharu ag 12% o bobl mewn ardaloedd gwledig. Ystyriwyd bod 7% o bobl sy'n byw yn ardaloedd lleiaf amddifadus Cymru yn dioddef amddifadedd materol, o gymharu â 29% o gartrefi yn ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru³¹.

Mae cyfran y cartrefi lle ceir amddifadedd materol hefyd yn amrywio yn ôl awdurdod lleol; o 11% o gartrefi yn Sir Fynwy i 20% o gartrefi yn Rhondda Cynon Taf. Dangosir hyn yn Siart 30³² isod.

Siart 30: Cyfran y cartrefi lle ceir amddifadedd materol, yn ôl Awdurdod Lleol (wedi'i ddiwygio)



Mae dadansoddiad cychwynnol yn dangos wrth edrych ar y gwahaniaethau rhwng y bobl mewn amddifadedd materol a'r rhai heb amddifadedd, mae'r bobl mewn amddifadedd materol yn llai tebygol o: fod yn iach; bod yn fodlon â'u bywydau; teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd bob dydd; teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch; teimlo'n ddiogel neu deimlo fel pe baent yn cael eu gwerthfawrogi mewn cymdeithas. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o deimlo'n unig a gorbryderus. Bydd dadansoddiad mwy manwl o'r canlyniadau hyn yn cael ei wneud a'i gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Arsylwyd patrymau tebyg ar gyfer y amddifadedd materol plant. Bydd tablau sy'n cyflwyno canlyniadau'r arolwg yn ôl amddifadedd materol ac amddifadedd materol plant yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir i gyd-fynd datganiad hwn a gellir eu gweld ar [StatsCymru](#).

³¹ Gweler [termau a diffiniadau](#) am ddiffiniad o'r ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus.

³² Diwygiad: Mae'r siart yma, wedi ei ddiwygio, oherwydd y gwallau a ganfuwyd yn y dull defnyddiwyd i ddeillio amddifadedd materol.


Lles

Mae [Rhaglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru yn nodi'r bwriad i wella lles hirdymor pobl Cymru. Mae lles yr unigolyn yn elfen greiddiol o'r darlun hwn, ac yn cynnwys mesuriadau eraill o les goddrychol, megis teimlo bod gwerth i'r hyn yr ydych yn ei wneud. Gellir mesur agweddau eraill ar les mewn modd mwy gwrthrychol, fel disgwyliad oes a chyflawniadau addysgol. Ceir gwybodaeth bellach am y mesuriadau a'r canlyniadau hyn ar [wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ONS\)](#).

Gofynnai'r Arolwg Cenedlaethol i bobl ddyfarnu sgôr am agweddau amrywiol ar eu bywyd, ar raddfa o ddim (ddim yn fodlon o gwbl) i ddeg (yn hollol fodlon). 7.9 oedd y sgôr gyfartalog a roddwyd ar gyfer bodlonrwydd â bywyd. Pobl ifanc 16 i 24 oedd oedd y grŵp oedran a oedd yn fwyaf bodlon â'u bywydau, gan roi sgôr gyfartalog o 8.1. Pobl 45 i 64 oedd oedd yn lleiaf bodlon, gan roi sgôr gyfartalog o 7.7. O ran eu bodlonrwydd â bywyd, 7.9 oedd sgôr gyfartalog ar gyfer dynion a menywod. Mae Siart 31 yn dangos y sgorau cyfartalog ar gyfer boddhad ag agweddau eraill ar fywyd; rhoddodd pobl sgôr boddhad cyffredinol 8.1 ar gyfer 'y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil', sgôr o 7.5 gyda 'yr amser mae'n ei gymryd i deithio i ac o'r gwaith' a 7.0 ar gyfer y 'faint o amser i wneud y pethau yr ydych yn mwynhau ei wneud'.

Gofynnodd yr ONS yr un cwestiwn yn ei bwletin [Personal well-being in the UK, 2013/14](#) yn seiliedig ar ddata o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a chanfod mai 7.5 oedd y sgôr gyfartalog ar gyfer bodlonrwydd â bywyd yng Nghymru a hefyd yn y DU. Cynhaliwyd [Arolwg Ansawdd Bywyd Ewrop](#) (2012) ar draws Ewrop rhwng mis Medi 2011 a mis Chwefror 2012. Roedd yn cynnwys rhai cwestiynau tebyg am les goddrychol, a chanfu gyfartaledd bodlonrwydd â bywyd o 7.3 yn y DU, a 7.1 yn Ewrop. Oherwydd y gwahaniaethau rhwng methodoleg y naill arolwg a'r llall a chyd-destun eu canlyniadau, ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol; ond drwy edrych ar yr holl ganlyniadau gyda'i gilydd, gellir cymharu lefel lles personol yng Nghymru â'r DU a gweddill Ewrop.

Siart 31: Bodlonrwydd ag agweddau ar fywyd



(a) Rhoddwyd atebion ar raddfa o ddim (ddim yn fodlon o gwbl) i ddeg (cwbl fodlon).

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd gyfres o gwestiynau i asesu lles meddyliol pobl. Er enghraifft, gofynnodd pa mor hapus yr oeddent wedi teimlo'r diwrnod cynt - lle'r oedd dim yn golygu 'ddim yn hapus o gwbl' a deg yn golygu 'yn hollol hapus'. Y lefel gyfartalog o hapusrwydd oedd 7.7. Adroddwyd sgôr o 7.4 allan o 10, ar gyfer Cymru a hefyd ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (gweler uchod). Mewn modd tebyg, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl pa mor bryderus yr oeddent wedi teimlo'r diwrnod cynt - lle'r oedd dim yn golygu 'ddim yn bryderus o gwbl' a deg yn golygu 'yn hollol bryderus'. Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn awgrymu bod lefel y gorbryder yng Nghymru yn isel ar y cyfan, gyda sgôr gyfartalog o 2.5. Yn 2013-14 canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer lefelau gorbryder oedd 2.9 ar gyfer y DU a 3.0 ar gyfer Cymru. Fel y trafodwyd yn

flaenorol mae gwahaniaethu rhwng y ddau arolwg o ran methodoleg, ond mae'r canlyniadau un yn darparu cyd-destun ar gyfer y llall.


Lles anifeiliaid

Mae [Deddf Lles Anifeiliaid 2006](#) yn cyfuno deddfwriaeth ar les anifeiliaid fferm ac anifeiliaid eraill. Nod y [Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes \(CGLIAA\)](#) yw hyrwyddo lles anifeiliaid yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn darparu cyllid i awdurdodau lleol asesu cydymffurfiaeth â Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [codau ymarfer](#) ar gyfer lles cathod, cŵn, ceffylau a chwingod. I ddarparu gwybodaeth yn gysylltiedig â'r materion hyn, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol nifer o gwestiynau i bobl am eu hanifeiliaid anwes, gan gynnwys cwestiynau am yswiriant anifeiliaid anwes, ac a oedd meicrosglodyn ar eu cŵn.

Roedd gan 47% o gartrefi anifail anwes. Gofynnwyd yr un cwestiwn ym mheilot Arolwg Cenedlaethol Cymru 2009-10, pan ddywedodd 44% o bobl fod rhywun yn eu cartref yn berchen ar anifail anwes.

Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr pa anifail anwes yr oeddent yn berchen arnynt. Dangosir y canlyniadau ar gyfer hynny yn Siart 32 isod, ym mheilot Arolwg Cenedlaethol 2009-10 ac yn Arolwg Cenedlaethol 2014-15.

Siart 32: Y gyfran o gartrefi lle mae rhywun yn berchen ar yr anifail anwes (a) (b)



(a) Nid yw'r canrannau yn creu cyfanswm o 100% gan fod yr ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un ateb.

(b) Roedd 'Anifail o deulu'r mwnci' hefyd yn ateb posibl yn Arolwg Cenedlaethol 2014-15, ond fe'i hepgorwyd o'r siart gan fod y niferoedd yn isel

Ar gyfer pob math o anifail anwes yr oedd cartrefi'n berchen arnynt, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi cael yr anifail anwes o fewn y pum mlynedd diwethaf, ac o le y cawsant yr anifail anwes. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y cwestiynau hyn ar [StatsCymru](#).

Gofynnwyd i ymatebwyr a chanddynt gath, ci neu geffyl, ac a oedd wedi cael yr anifeiliaid hynny o fewn y pum mlynedd diwethaf, a oedd ganddynt yswiriant ar eu cyfer³³. Roedd gan 50% yswiriant ar gyfer eu ceffyl 46% yswiriant ar gyfer eu ci a 21% yswiriant ar gyfer eu cath.

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cael ci³³ yn eu cartref o fewn y pum mlynedd diwethaf a oedd meicrosglodyn ar y ci hwnnw. Roedd meicrosglodyn ar 78% o'r cŵn.

³³ Os oedd gan yr ymatebydd fwy nag un anifail anwes o'r math hwn, gofynnwyd iddo feddwl am yr anifail y oedd wedi'i gael yn fwyaf diweddar.

Y celfyddydau, amgueddfeydd a threftadaeth

Mae'r bennod ar ddiwylliant a threftadaeth yn y [Rhaglen Lywodraethu](#) yn cynnwys ehangu mynediad at ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon Cymru, ac annog mwy o gyfranogiad fel cam allweddol. Ceir nodau manylach hefyd ar gyfer pob un o'r tri maes. Un o amcanion allweddol [Cyngor Celfyddydau Cymru](#) yw cynyddu lefel yr ymgysylltiad a'r cyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae [Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-15](#) yn anelu i wella amgueddfeydd yng Nghymru erbyn 2015 drwy gynnig amgueddfeydd i bawb, ac ynddynt gasgliadau sy'n cynrychioli ein diwylliant cyfoethog ac amrywiol, a darparu gwasanaethau perthnasol, cadarn a chynaliadwy i ddinasyddion. Nod [Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol](#) yw diogelu treftadaeth Cymru gan annog mynediad, mwynhad a chyfranogiad ar yr un pryd.

Yn 2014-15, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl am eu safbwyntiau ynghylch digwyddiadau celfyddydol, amgueddfeydd a mannau hanesyddol.

Dangoswyd enghreifftiau i bobl o ddigwyddiadau celfyddydol, amgueddfeydd a mannau hanesyddol, a gofynnwyd y cwestiynau canlynol iddynt³⁴:


Y Celfyddydau: Yn ystod y 12 mis diwethaf ydych chi wedi bod mewn unrhyw rai o'r digwyddiadau hyn yng Nghymru?	Treftadaeth: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi ymweld ag unrhyw un o'r canlynol yng Nghymru?	Amgueddfa: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r pethau hyn yng Nghymru?
• Drama / pantomeim / sioe gerdd / digwyddiad comedi • Opera / perfformiad cerddoriaeth glasurol / digwyddiad cerddoriaeth fyw arall • Ffilm mewn canolfan gelfyddydol • Carnifal / celfyddydau stryd / gwyl gelfyddydol (ee, cerddoriaeth, dawns, Eisteddfod) • Arddangosfa neu gasgliad o gelf, crefft, ffotograffiaeth neu gerfluniau • Digwyddiad yn cynnwys celf fideo neu gelf electronig • Digwyddiad yn ymwneud â llyfrau neu ysgrifennu • Syrcas (ddim yn cynnwys anifeiliaid) • Perfformiad dawns • Digwyddiad celfyddydol / cerddorol / diwylliannol arall	• Parc neu ardd hanesyddol sydd ar agor i'r cyhoedd • Man addoli hanesyddol, fel ymwelydd (yn hytrach nag i addoli) • Safle fel castell, caer neu adfail • Safle o ddiddordeb archeolegol (ee, tref Rufeinig, gladdfa hynafol) • Safle arall hanesyddol/treftadol	• Wedi ymweld ag amgueddfa • Wedi defnyddio caffi neu siop amgueddfa • Wedi clywed trafodaeth gan guradur amgueddfa • Wedi mynd i ddigwyddiad neu weithdy mewn amgueddfa • Wedi gwneud ymholiad i amgueddfa ynghylch pwnc neu eitem o ddiddordeb • Wedi defnyddio amgueddfa ar gyfer ymchwil

Roedd 58% o bobl wedi bod i ddigwyddiad celfyddydol, 59% wedi ymweld â man hanesyddol a 39% wedi bod i amgueddfa.

³⁴ Darparwyd y rhestrau hyn fel enghreifftiau yn unig: ni chasglwyd gwybodaeth am yr union fath o ddigwyddiad/lleoliad yr aeth yr ymatebydd iddo.

Gofynnwyd wedyn i'r rhai a oedd wedi bod i ddigwyddiad celfyddydol, i fan hanesyddol neu i amgueddfa pa mor fodlon yr oeddent â'u hymweliad. Roedd 97% o bobl yn fodlon ar y digwyddiad celfyddydol neu lle hanesyddol yr aethant i weld a 96% yn fodlon gyda'r amgueddfa y maent wedi ymweld. Yn ystod y 12 mis diwethaf, nid oedd 42% wedi bod i ddigwyddiad celfyddydol, nid oedd 41% wedi ymweld â man hanesyddol, ac nid oedd 61% wedi bod i amgueddfa. Gofynnwyd i'r bobl hyn beth oedd y rheswm pennaf dros beidio gwneud hynny. Dangosir y canlyniadau yn Siart 33 isod.

Siart 33: Rheswm dros beidio mynd i ddigwyddiad celfyddydol, man hanesyddol neu amgueddfa yn y 12 mis diwethaf (a)



(a) Nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100% gan fod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un rheswm.

Roedd pobl yn fwyaf tebygol o nodi 'Dim diddordeb' fel rheswm dros beidio â mynd i ddigwyddiad celfyddydol, man hanesyddol neu amgueddfa yn y 12 mis diwethaf, i'w ddilyn gan 'anodd dod o hyd i'r amser' ac 'heb feddwl am hwn'.


Gofal plant

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn flaenoriaeth allweddol ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn ei strategaeth [Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd](#). Mae gofal plant yn galluogi rhieni i weithio neu dderbyn hyfforddiant, felly gellid dadlau ei fod yn cynyddu twf economaidd, yn mynd i'r afael â thlodi ac yn lleihau anghydraddoldeb.

Yn 2014-15 cyflwynodd yr Arolwg Cenedlaethol gwestiynau am ofal plant er mwyn canfod a adroddir bod ffactorau fel prinder neu gost gofal plant yn dylanwadu ar benderfyniad rhiant i beidio gweithio neu weithio llai o oriau.

Gofynnwyd i rieni 0 i 14 oed a oedd angen iddynt drefnu gofal i'w plentyn er mwyn i'r rhiant allu gweithio, astudio neu dderbyn hyfforddiant. Dywedodd 49% o rieni a chanddynt blentyn yn yr ystod oedran hon fod angen iddynt drefnu gofal plant. I'r rhieni a oedd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol (hynny yw, nid gofal gan eu perthnasau a'u ffrindiau), gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch pa mor rhwydd oedd hi i gael hyd i ofal plant. Gellir gweld y canlyniadau yn Siart 34.

Siart 34: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i gael gofal plant i blentyn 0 i 14 oed



Roedd 46% a oedd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol yn ei chael hi'n anodd³⁵ fforddio'r gofal hwnnw i'w plentyn, tra'r oedd 74% o bobl yn ei chael hi'n hawdd³⁶ cael gofal plant a oedd yn cyd-fynd â'u horiau gwaith. Roedd 32% o rieni'n ei chael hi'n anodd canfod gofal plant ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol.

Roedd y canlyniadau'n amrywio rhywfaint wrth ystyried oedran y plentyn. Roedd cyfran uwch o (51%) o rieni â phlentyn 0 i 4 oed yn ei chael hi'n anodd fforddio gofal plant na rhieni plant 5 i 11 oed (36%). O ofyn pa mor fodlon neu anfodlon yr oeddent â'r gofal plant ffurfiol yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn, dywedodd mwyafrif helaeth y rhieni eu bod yn fodlon (93%)³⁷.

³⁵ Diffinnir anodd yn ôl y rhai a ddywedodd 'anodd iawn' neu 'gweddol anodd'.

³⁶ Diffinnir hawdd yn ôl y rhai a ddywedodd 'hawdd iawn' neu 'gweddol hawdd'.

³⁷ Diffinnir bodlon yn ôl y rhai a ddywedodd 'bodlon iawn' neu 'gweddol fodlon'.

Chwarae


Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan blant hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig, a gweithgareddau hamdden eraill'.³⁸

Mae Llywodraeth Cymru wedi llofnodi'r confensiwn hwn, ac yn datgan ei bod am wella cyfleoedd i chwarae yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn canfod cryfderau a diffygion yn y ddarpariaeth. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch chwarae yn Arolwg Cenedlaethol 2014-15 er mwyn canfod beth oedd canfyddiadau rhieni a darparu tystiolaeth gyson ar raddfa genedlaethol.

Gofynnwyd i rieni â phlant 1 i 10 oed pa mor fodlon neu anfodlon yr oeddent â'r mannau chwarae dan do ac awyr agored oedd ar gael i'w plentyn yn yr ardal leol.³⁹ Gofynnwyd i rieni â phlant 11 i 15 oed pa mor fodlon/anfodlon yr oeddent â'r mannau yn yr ardal leol lle gallai eu plentyn gwrdd â ffrindiau.⁴⁰ Gofynnwyd trydydd cwestiwn i bobl heb blant dan 16 oed. Gofynnwyd i'r grŵp hwn pa mor fodlon / anfodlon yr oeddent â'r mannau a'r llefydd yn yr ardal leol i blant a phobl ifanc gael chwarae neu gwrdd.

Dangosir canlyniadau'r tri chwestiwn yn Siart 35 isod.

Siart 35: Lefel y bodlonrwydd/anfodlonrwydd â'r mannau chwarae neu'r mannau cyfarfod yn yr ardal leol



Roedd 54% o rieni â phlentyn iau yn fodlon⁴¹ â'r cyfleusterau chwarae yn eu hardal leol; tra'r oedd 38% o'r rhieni â phlentyn 11 i 15 oed yn fodlon. I'r rhai a oedd yn anfodlon⁴², dangoswyd rhestr o resymau posibl a gofynnwyd iddynt ddewis y rhesymau perthnasol. O blith y rhain, cyfeiriodd 83% o rieni â phlant 1 i 10 oed at ddiffyg llefydd cyhoeddus awyr agored addas i'w plentyn chwarae, a dywedodd 64% fod yna ddiffyg llefydd dan do addas. Cyfeiriodd rhieni â phlentyn 11 i 15 oed a oedd yn anfodlon â'r mannau chwarae a'r llefydd i ddod ynghyd yn eu hardal leol hefydd at ddiffyg llefydd cyhoeddus addas awyr agored (77%) a dan do (79%), a dywedodd 64% nad oedd digon o glybiau/gweithgareddau'n cael eu trefnu.

Bydd tablau pellach yn cael eu cyhoeddi'n fuan fydd yn ystyried rhyw yr ymatebydd, rhyw y plentyn a'r ardal ddaearyddol, ac fe'u ceir ar wefan StatsCymru.

³⁸ [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – Erthygl 31 – Hamdden, chwarae a diwylliant.](#)

³⁹ Os oedd gan riant fwy nag un plentyn yn y grŵp oedran hwn, dewiswyd un ar hap.

⁴⁰ Unwaith eto, os oedd mwy nag un plentyn yn y grŵp oedran hwn, dewiswyd un ar hap.

⁴¹ Diffinnir bodlon fel 'bodlon iawn' neu 'gweddol fodlon'.

⁴² Diffinnir anfodlon fel 'anfodlon iawn' neu 'gweddol anfodlon'.


Ailgylchu

Mae Llywodraeth Cymru'n anelu i fod yn genedl sy'n ailgylchu cyfradd uchel o'i deunyddiau erbyn 2025 ac yn genedl ddiwasttraff erbyn 2050. Dogfen strategaeth yw [Tuag at Ddyfodol Diwasttraff](#) sy'n amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Cafodd cyfres o gwestiynau am weithgarwch ailgylchu pobl eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol. Gwnaed hynny er mwyn canfod yr hyn y mae pobl yn ei wneud ar hyn o bryd. Gofynnwyd y cwestiynau hyn er mwyn monitro cynnydd tuag at y nodau, a chanfod pa ymyrraeth o ran polisi sydd ei hangen, os o gwbl, er mwyn annog mwy o ailgylchu. Cafodd cwestiynau hefyd eu cynnwys ynghylch bodlonrwydd pobl â'r gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu a ddarperir gan eu hawdurdod lleol.

Roedd 82% o bobl yn fodlon â'r gwasanaeth casglu ailgylchu a ddarperir gan eu cyngor. Dengys Siart 36 isod sut mae hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Roedd 69% yn fodlon yng Nhorfaen o gymharu â 88% yng Nghaerffili.

Siart 36: Bodlonrwydd â'r gwasanaeth casglu ailgylchu a ddarperir, yn ôl awdurdod lleol




Gofynnwyd i ymatebwyr am ddulliau eraill o ailgylchu, fel ailddefnyddio, rhoi a gwerthu eitemau ail-law. Gofynnwyd a oeddent hwy eu hunain wedi gwerthu neu roi eitemau i ffwrdd yn y 12 mis diwethaf, y byddent wedi'u taflu fel arall; a hefyd a oeddent wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law neu wedi'u defnyddio. Roedd 83% o bobl wedi rhoi neu werthu eitemau ail-law mewn rhyw fodd neu'i gilydd, a 60% wedi prynu neu dderbyn eitem ail-law.

Siopau elusen oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o roi a phrynu eitemau ail-law. Roedd 71% wedi rhoi eitem(au) i siop elusen yn y 12 mis blaenorol a 37% wedi prynu eitem(au) o siop elusen yn yr un cyfnod. Roedd gwefannau fel eBay neu Gumtree yn fwy poblogaidd o ran prynu eitemau ail-law na'u gwerthu, gyda 29% yn nodi eu bod wedi prynu eitem ail-law drwy wefan, a 20% yn nodi eu bod wedi defnyddio'r dull hwnnw i werthu eitemau. Roedd defnyddio gwefannau i'r diben hwn yn llawer mwy poblogaidd ymhlith pobl dan 45 oed na phobl dros yr oedran hwnnw. Roedd 45% o'r rhai dan 45 oed wedi prynu eitem trwy wefan a 31% wedi gwerthu, o'i gymharu â 17% a 12% o'r rhai 45 oed a throsodd yn y drefn honno.

Mae Siart 37 yn dangos y gwahaniaethau rhwng y cyfrannau o bobl sy'n rhoi neu'n gwerthu eitemau a'r rhai sy'n prynu neu'n derbyn eitemau ail-law, wedi'u rhannu yn ôl y dull o brynu / gwerthu.

Siart 37: Y ganran a oedd wedi gwerthu neu roi eitemau o gymharu â'r ganran a oedd wedi prynu neu dderbyn eitemau ail-law neu eitemau wedi'u defnyddio, yn ôl dull



Cenedlaethau'r dyfodol


Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn anelu i wella llesiant pobl yng Nghymru a sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol hwythau i fodloni eu hanghenion. Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at saith nod llesiant er mwyn gwella llesiant Cymru, ac yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn anelu tuag at y nodau hyn. Mae hefyd yn gofyn am gael sefydlu dangosyddion cenedlaethol er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i fesur canfyddiad y cyhoedd ynglŷn â'r dyfodol. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r ymatebwyr: 'Ymhen 25 mlynedd, ydych chi'n meddwl ...'

- Y bydd ffyrdd pobl o fyw yng Nghymru ... Yn fwy iach na heddiw, Yn llai iach na heddiw, Ddim yn wahanol
- Y bydd safon byw yng Nghymru ... Yn well na heddiw, Yn waeth na heddiw, Ddim yn wahanol
- Y bydd y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yng Nghymru ... Yn fwy na heddiw, Yn llai na heddiw, Ddim yn wahanol
- Y bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru ... Yn fwy o broblem na heddiw, Yn llai o broblem na heddiw, Ddim yn wahanol

Cyflwynir y canlyniadau yn Siart 38 isod.

Siart 38: Barn ymatebwyr ar agweddau ar Gymru ymhen 25 mlynedd



Roedd 59% o bobl yn meddwl y byddai'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn fwy ymhen 25 mlynedd, ac roedd 59% o bobl yn meddwl y byddai effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn waeth ymhen 25 mlynedd. Cafwyd gwahaniaethau mawr rhwng yr ymatebion cadarnhaol a negyddol yn y ddau ddatganiad. Roedd tua thraean o bobl yn meddwl na fyddai unrhyw newid i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd nac i'r bwlch rhwng cyfoethog a'r tlawd o gymharu â heddiw (34% a 35% yn y drefn honno).

Cafwyd cyfrannau cymharol gyfartal o ymatebion ar draws y categorïau cadarnhaol, negyddol a ddim yn wahanol yn y canlyniadau ar gyfer y cwestiynau ar ffyrdd pobl o fyw a safon byw.

Llety

Mae Tai yn cael dylanwad pwysig ar iechyd, addysg, gwaith a'r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt. Un 'r nodau a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yw helpu i sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn byw mewn llety o safon uchel. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y bobl sy'n rhentu eu cartref wedi cynyddu, yn enwedig y rhai sy'n rhentu'n breifat. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y [Bil Rhentu Cartrefi](#) er mwyn ceisio mynd i'r afael â phroblemau y bydd rhai pobl sy'n rhentu eu cartref yn dod ar eu traws.


Er mwyn helpu i fesur effeithiau'r ddeddfwriaeth, a hefyd i oleuo datblygiad unrhyw is-ddeddfwriaeth o dan y Bil, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys rhai cwestiynau ynghylch bodlonrwydd pobl â'u llety.

Roedd 94% o bobl yn fodlon (68% yn fodlon iawn a 26% yn weddol fodlon) â'u llety. Roedd hyn yn amrywio yn ôl deiliadaeth. Roedd 97% o berchen-feddianwyr yn fodlon â'u llety, o gymharu ag 90% o'r rhai mewn llety rhent preifat ac 83% o'r rhai a oedd mewn tai cymdeithasol.

Gofynnwyd y cwestiynau hyn hefyd yn [Arolwg Tai Lloegr](#), lle gwelwyd patrwm tebyg. Yn 2012-13, roedd 90% o bobl yn Lloegr yn fodlon â'u llety, 95% o berchen-feddianwyr yn fodlon, 84% o'r rhai a oedd yn rhentu'n breifat ac 81% o'r rhai mewn llety rhent cymdeithasol⁴³.

Er mwyn cael dealltwriaeth well o'r sector tai rhent, gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i'r rhai a oedd yn rhentu eu llety ynghylch pa mor fodlon yr oeddent â'r modd yr oedd eu landlord yn atgyweirio ac yn cynnal a chadw eu cartref, pa mor hir yr oeddent wedi bod yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, a'r math o lety (ee, rhent neu berchen-feddiannu) yr oeddent wedi byw ynddo'n flaenorol. Roedd 74% o'r rhai a oedd yn rhentu eu llety yn fodlon â'r modd yr oedd eu landlord yn atgyweirio ac yn cynnal a chadw eu cartref. Mae Siart 39 isod yn dangos sut roedd y bodlonrwydd yn amrywio yn ôl y math o landlord.

Siart 39: Bodlonrwydd â'r modd yr oedd eu landlord yn atgyweirio ac yn cynnal a chadw eu cartref yn ôl math o landlord



- Roedd 96% o bobl a oedd yn rhentu gan berthynas neu ffrind yn fodlon â'r modd yr oedd eu landlord yn cynnal a chadw eu cartref (83% yn fodlon iawn ac 13% yn weddol fodlon).

- Roedd hyn yn cymharu â 69% o bobl a oedd yn rhentu mewn tai cymdeithasol (38% yn fodlon iawn a 32% yn weddol fodlon).

Gofynnwyd i'r rhentwyr hefyd am ba mor hir yr oeddent wedi bod yn byw yn eu cyfeiriad presennol. Roedd hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl math o landlord, gyda'r rhai a oedd yn rhentu gan landlord preifat unigol yn fwy tebygol o fod wedi bod yn yr eiddo am gyfnod byrrach. Roedd 48% o'r rhai oedd yn rhentu gan gyflogwr neu sefydliad arall a 44% o'r rhai sy'n rhentu gan landlord preifat unigol wedi byw yn y cyfeiriad am lai na 12 mis, o'i gymharu â 11% o'r rhai sy'n rhentu mewn tai cymdeithasol. Roedd 44% o'r rhai a oedd yn

⁴³ Cynhaliwyd [Arolwg Tai Lloegr](#) gyda chynrychiolydd o'r cartref (y sawl sy'n rhentu/berchen ar y cartref, yr unigolyn hynaf neu'r sawl sy'n ennill y mwyafrif o gyflog) yn hytrach nag oedolyn 16+ oed wedi'i ddewis ar hap, fel y gwnaed yn yr Arolwg Cenedlaethol. Gallai'r gwahaniaeth hwn rhwng dyluniad y naill arolwg a'r llall gyfrannu at wahaniaethau a gafwyd rhwng y canlyniadau.

rhentu gan mewn tai cymdeithasol wedi byw yn eu heiddo ers 10 mlynedd neu fwy, o gymharu â 6% o'r rhai a oedd yn rhentu gan landlord preifat unigol.


Mesurau arbed ynni

Roedd [Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010](#) Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i leihau nifer y cartrefi sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru, ac i weithredu er mwyn cyrraedd y targed, , cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, na cheir tlodi tanwydd yn yr un cartref yng Nghymru erbyn 2018. Ystyrir bod tlodi tanwydd mewn cartref os yw'r preswylwyr yn gwario 10% neu fwy o'u hincwm net ar gostau ynni.

Mae deall lefel y tlodi tanwydd ledled Cymru, y mathau o gartrefi lle ceir y tlodi tanwydd mwyaf difrifol, a lleoliad y cartrefi hyn, yn dylanwadu ar y modd y bydd Llywodraeth Cymru'n targedu cyllid i drechu tlodi tanwydd. Yn ogystal â gweithio gyda chwmnïau ynni i leihau costau, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gynyddu effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae dau gynllun effeithlonrwydd ynni cartref ar waith yng Nghymru (NEST ac ARBED) ac fe geir mwy o wybodaeth amdanynt [yma](#). Drwy'r Arolwg Cenedlaethol, cyflwynwyd cwestiynau am inswleiddio a'r cyflenwad ynni yn 2014-15 am y tro cyntaf.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd eu to, eu waliau ceudod neu eu waliau solet wedi'u hinswleiddio, ac a oedd ganddynt baneli solar neu fesurau ynni cynaliadwy eraill. Arweiniodd y cwestiynau hyn at gyfradd uwch o ymatebion 'Ddim yn gwybod' na llawer o gwestiynau eraill yn yr arolwg. Nid oedd 13% yn gwybod a oedd eu waliau ceudod wedi'u hinswleiddio, nid oedd 15% yn gwybod a oedd eu waliau solet wedi'u hinswleiddio. O eithrio'r rhai a atebodd 'Ddim yn gwybod', a'r rhai lle nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'w heiddo, ceir y canlyniadau a ddangosir yn Siart 40 yn ôl y gwahanol fathau ddeiliadaeth.

Siart 40: Mesurau arbed ynni yn ôl math o ddeiliadaeth



O'r rhai a wyddai'r naill ffordd neu'r llall, dywedodd cyfanswm o 94% fod eu to wedi'i inswleiddio. Yn 2008, cafwyd canlyniad tebyg yn yr [Arolwg Byw yng Nghymru](#), sef 91%.⁴⁴ Roedd toeau eiddo rhent preifat yn llai tebygol o fod wedi'u hinswleiddio na thoeau eiddo perchen-feddianwyr (88% a 95% yn y drefn honno). Roedd hyn hefyd yn wir yn achos inswleiddio waliau ceudod, lle'r oedd 62% o eiddo rhent preifat wedi'u hinswleiddio o gymharu â 75% o eiddo perchen-feddianwyr. Y ffigur cyffredinol ar gyfer inswleiddio waliau ceudod (lle'r oedd yr ymatebydd yn gwybod a oedd y waliau wedi'u hinswleiddio ai peidio) oedd 74%. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers canfyddiad Byw yng Nghymru yn 2008 (56%). Y ffigur cyffredinol ar gyfer inswleiddio waliau solet lle'r oedd yr ymatebydd yn gwybod a oedd y waliau wedi'u hinswleiddio ai peidio) oedd 31%; Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn yr Arolwg Byw yng Nghymru. Canfu'r Arolwg

⁴⁴ Cynhaliwyd yr Arolwg Byw yng Nghymru â chynrychiolydd y cartref (y sawl sy'n rhentu/yn berchen ar y cartref, yr unigolyn hynaf neu'r unigolyn sy'n ennill y mwyaf o arian) yn hytrach na chydag oedolyn 16+ oed a ddewiswyd ar hap, fel y gwnaed yn yr Arolwg Cenedlaethol. Gallai'r gwahaniaeth rhwng dyluniad y ddau arolwg gyfrannu at y gwahaniaeth hwn a geir rhwng eu canlyniadau.

Cenedlaethol fod gan 4% o'r holl eiddo baneli solar neu fesurau ynni adnewyddadwy eraill, tra bo gan 7% o dai cymdeithasol y nodweddion hyn.

Gall newid cyflenwr ynni fod yn ffordd arall o leihau costau ynni. Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi newid eu cyflenwr nwy ac/neu drydan yn ystod y flwyddyn gynt. Roedd 14% o bobl wedi newid cyflenwr yn ystod y flwyddyn gynt, 36% wedi nid cyflenwr cyn hynny, a dywedodd 50% o bobl nad oeddent erioed wedi newid cyflenwr.


Entrepreneuriaeth

Mae'r [Rhaglen Lywodraethu](#) yn amlinellu nodau Llywodraeth Cymru i feithrin diwylliant mwy entrepreneuriaidd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys canfod pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gwmnïau bychain i gychwyn a'u galluogi i dyfu. Er mwyn helpu i ddeall y materion dan sylw, roedd Arolwg Cenedlaethol 2014-15 yn cynnwys cwestiynau am agweddau poblogaeth gyffredinol Cymru at entrepreneuriaeth.

Gofynnai'r Arolwg Cenedlaethol i bobl nad oeddent eisoes yn hunangyflogedig ac a oedd yn 65 oed neu'n iau a fyddent erioed yn hoffi cychwyn eu busnes eu hunain. Dywedodd 35% eu bod eisiau cychwyn eu busnes eu hunain, neu efallai eu bod eisiau cychwyn eu busnes eu hunain yn y dyfodol. Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr hyn a oedd hi'n debygol y byddent yn cychwyn eu busnes eu hunain o fewn y 5 mlynedd nesaf. Dywedodd 20% fod hynny'n debygol iawn, 24% fod hynny'n weddol debygol, 40% nad oedd hynny'n debygol iawn, ac 15% nad oedd hynny'n debygol o gwbl.

Dengys Siart 41 y gyfran o bobl a ddywedodd yr hoffent gychwyn eu busnes eu hunain, neu efallai yr hoffent gychwyn eu busnes eu hunain, yn y dyfodol, wedi'i rhannu yn ôl pa mor debygol yr oedd hynny o ddigwydd yn eu tyb hwy, ac yn ôl oedran a rhyw.

Siart 41: Y rhai a fyddai'n hoffi cychwyn eu busnes eu hunain yn y dyfodol, yn ôl tebygolrwydd, oedran a rhyw



Y grŵp oedran 16-24 oedd y gyfran uchaf o bobl a oedd eisiau cychwyn eu busnes eu hunain yn y dyfodol (64%). Roedd y grŵp 25-44 (52%) yn ail agos i hyn. Yn y grŵp 45-65 oedd yr oedd y gyfran isaf (25%).

Roedd mwy o ddynion na menywod yn awyddus i gychwyn eu busnes eu hunain yn y dyfodol (40%, o gymharu â 30%). O'r 40% o ddynion oedd am ddechrau eu busnes eu hunain yn y dyfodol, roedd 43% ohonynt yn meddwl ei fod yn debygol y byddent yn dechrau eu busnes eu hunain yn y pum mlynedd nesaf (sy'n cyfateb i 17% o ddynion fel y dangosir yn Siart 41). O'r 30% o fenywod sydd am ddechrau eu busnes eu hunain, roedd 47% ohonynt yn credu ei y byddai'n debygol o ddigwydd (sy'n cyfateb i 14% o fenywod fel y dangosir yn Siart 41).⁴⁵

⁴⁵ Mae 'Tebygol' yn cael ei ddiffinio fel y rheiny a ddywedodd 'debygol iawn' neu'n 'weddol debygol', a 'Ddim yn debygol' yn cael ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'ddim yn debygol iawn' neu 'ddim yn debygol o gwbl'.

Y Lluoedd Arfog

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, ac i sicrhau nad yw aelodau o'r gymuned hon o dan anfantais wrth dderbyn gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i'w gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog. Yn y [Pecyn Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru](#) nodir ymrwymïadau Llywodraeth Cymru i'r grŵp hwn.


Mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn cynnwys y rheiny y mae gan y wlad rwymedigaeth foesol tuag atynt oherwydd eu gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog. Nid oes meini prawf caeth neu ddiffiniadau cyfreithiol⁴⁶; fodd bynnag, at ddibenion y datganiad hwn mae Cymuned y Lluoedd Arfog wedi cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

- Aelod sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, neu a fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog (Arferol neu Wrth gefn)
- Teulu (h.y. priod, partner sifil, partner di-briod neu blentyn) aelod sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd neu a fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog (Arferol neu Wrth gefn)⁴⁷

Yn 2014-15, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau er mwyn helpu i ganfod nifer y bobl yng nghymuned y Lluoedd Arfog a'u nodweddion. Mae angen yr wybodaeth hon ar Lywodraeth Cymru i fesur lefelau'r galw a phennu'r cyllid a'r gwasanaethau fydd angen eu darparu yn y dyfodol ar gyfer pob elfen o'r Pecyn Cymorth. Bydd hefyd o gymorth i ganfod meysydd i ddatblygu polisïau pellach. Canfu'r arolwg fod:

- 7% o'r ymatebwyr naill ai'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU ar hyn o bryd, neu wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn y gorffennol.⁴⁸
- Roedd gan 16% o'r ymatebwyr o leiaf un berthynas a oedd yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog y DU ar y pryd, neu a oedd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn y gorffennol.
- Ystyriwyd bod 19% o'r ymatebwyr yng Nghymuned y Lluoedd Arfog. Hynny yw, roeddent naill ai'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu roedd o leiaf un aelod o'u teulu⁴⁷ yn gwasanaethu ar y pryd, neu wedi gwasanaethu yn y gorffennol. Roedd y tebygolrwydd o fod yn aelod o gymuned y Lluoedd Arfog yn cynyddu gydag oedran, fel y dengys Siart 42 isod.

Siart 42: Canran y bobl sydd yng nghymuned y Lluoedd Arfog yn ôl oedran



- Roedd pobl hŷn yn llawer mwy tebygol o fod yng nghymuned y lluoedd arfog na phobl iau.

- Roedd 40% o bobl 75 oed a throsodd yng nghymuned y lluoedd arfog o gymharu ag ond 9% o oedolion ifanc (16 i 24 oed)

⁴⁶ Gweler [Cyfamod y Lluoedd Arfog](#) am ragor o fanylion am y diffiniad o'r Gymuned y Lluoedd Arfog

⁴⁷ Sylwer nad yw rhiant y person sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y 'Gymuned y Lluoedd Arfog'

⁴⁸ Sylwer mai arolwg o gartrefi preswyl yw Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac nad yw'n cynnwys sefydliadau cymunol fel barics y fyddin ac ati.

Termau a diffiniadau

Opsiynau ateb

Rydym wedi cyfuno opsiynau ateb ar gyfer cwestiynau yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Opsiynau ateb:

Bodlon iawn ac eithaf bodlon
Anfodlon iawn ac eithaf anfodlon

Cofnodwyd fel:

Bodlon
Anfodlon

Hawdd iawn a gweddol hawdd
Anodd iawn a gweddol anodd

Hawdd
Anodd

Cytuno'n gryf a thueddu i gytuno
Anghytuno'n gryf a thueddu i anghytuno

Cytuno
Anghytuno

Cyfartaledd

Pan ddefnyddir y gair 'cyfartaledd' yn yr adroddiad hwn mae'n cyfeirio at gymedr rhifyddol.

Amddifadedd

Defnyddir [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(Malc\)](#) fel y mesur swyddogol o amddifadedd yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau ehangach a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd. Felly, mae Malc yn seiliedig ar wyth math gwahanol o amddifadedd, sef: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Rhennir Cymru yn 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) a cheir tua 1,600 o bobl ym mhob un. Cyfrifwyd graddau amddifadedd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn: rhoddir gradd 1 i'r ACEHI fwyaf difreintiedig, a 1,909 i'r lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y bwletin hwn, rydym wedi grwpio'r bobl sy'n byw yn y 20% o ACEHI sydd fwyaf difreintiedig ar sgôr Malc a'u cymharu â'r 20% o'r ACEHI sydd leiaf difreintiedig.

Cartref - Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu gofal tŷ cyffredin - sef, rhannu lolfâ, ystafell fyw neu o leiaf un pryd y diwrnod.

Rhiant - rhieni a gwarcheidwaid cyfreithlon plant o dan ugain oed.

Pobl - Yn yr adroddiad, mae 'pobl' ond yn cyfeirio at oedolion 16 oed a throsodd. Yr unig eithriad i hyn yw ar gyfer y canlyniadau a geir yn yr adran ar y rhynggrwyd. Mae'r canlyniadau hyn yn ymwneud ag oedolion 18 oed a throsodd, er mwyn bod yn gyson â'r diffiniad a ddefnyddir ym mholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnydd o'r rhynggrwyd a mynediad at y rhynggrwyd.

Cymwysterau

Mae cymwysterau uchaf yr ymatebwyr 'wedi cael eu grwpio yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF), lle mai lefel 1 yw'r lefel isaf o gymwysterau a lefel 8 yn cyfateb i gradd doethuriaeth neu gymhwyster cyfwerth. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, roedd yr ymatebwyr wedi cael eu grwpio mewn 5 grŵp, y rhai heb gymwysterau yn y categori a ymateb isaf a'r rhai gyda chymwysterau ar lefelau 4 i 8 wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd yn y categori cymhwyster uchaf. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y lefelau NQF ar gael [yma](#).

Trefol / gwledig - Mae "trefol" yn cynnwys aneddiadau gyda phoblogaeth o 10,000 neu fwy a threfi bach a'u cyrion, lle mae poblogaeth yr ardal gyfagos ehangach yn fwy prin ei phoblogaeth. Mae "gwledig" yn cynnwys pob ardal arall.

Gwybodaeth allweddol o ansawdd

Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yma yn seiliedig ar y sampl o gyfeiriadau a roddwyd i gyfwelwyr rhwng mis Ebrill 2014 a mis Ebrill 2015 (cafodd y gwaith maes ei ymestyn ychydig y tu hwnt i'r marc un flwyddyn, er mwyn cynyddu maint y sampl).

Dewiswyd tua 25,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn yr aelwyd a chynhaliwyd cyfweiliad wyneb yn wyneb 25 munud o hyd gydag ef. Cwblhawyd cyfanswm o 14,285o gyfweiliadau. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 64%.⁴⁹

Pynciau a gwmpaswyd

Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan ganolbwyntio ar les a barn pobl ar wasanaethau cyhoeddus. Yn 2014-15 y prif bynciau oedd:

- bodlonrwydd cyffredinol gyda'r, systemau iechyd ac addysg a Llywodraeth Cymru;
- hygyrchedd gwasanaethau meddygon teulu, ysbytai ac ambiwlans a bodlonrwydd arnynt
- cynlluniau gofal personol, gofal llygaid a defnydd o wasanaethau gofal cymdeithasol
- cefnogaeth rhieni gyda llythrennedd a rhifedd;
- bodlonrwydd â gwasanaethau awdurdodau lleol;
- lles, gan gynnwys cydlyniant cymunedol a, teimlo'n ddiogel;
- bodlonrwydd gyda llety a mesurau arbed ynni;
- celfyddydau / amgueddfeydd / treftadaeth;
- anifeiliaid anwes;
- gofal plant;
- chwarae;
- ailgylchu;
- democratiaeth a dealltwriaeth o gynghorau lleol;
- cenedlaethau'r dyfodol;
- Lluoedd Arfog;
- entrepreneuriaeth;
- amddifadedd materol ac amddifadedd materol plant / cynhwysiant ariannol;
- defnydd o'r gyfryngau;
- defnyddio'r rhyngrwyd, gwefannau gwasanaethau cyhoeddus e-Ddiogelwch a;
- teithio byw

Mae'r holiadur llawn ar gael ar [dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol](#).

⁴⁹ Ceir fwy o fanylion am sut y mae'r maint y sampl yn cael ei gyfrifo Adroddiad Technegol. Er enghraifft, roedd y gyfradd ymateb terfynol yn cynnwys cyfeiriadau a oedd yn wag.

Llwybro ac is-samplu

Nid yw pob cwestiwn yn cael ei ofyn i bob ymatebydd. Mae rhai cwestiynau ond yn berthnasol i rai (e.e. cwestiynau i rieni sydd â phlant yn yr ysgol); Mae cwestiynau eraill ond yn cael ei gofyn i is-sampl o ymatebwyr a ddewiswyd ar hap am nad oes angen cael y canlyniadau ar lefel awdurdod lleol.

Mae hyn yn golygu, ar gyfer rhai cwestiynau, bydd canlyniadau cadarn i'w gael ar lefel awdurdod lleol; i eraill, bydd canlyniadau cadarn ond ar gael ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

Mae'r trefniadau ar is-samplu pynciau wedi'u nodi isod.

Pynciau a ofynnwyd i bawb sy'n gymwys i ateb (hyd at 14,000 o ymatebwyr, tua 600 fesul ALL).	Is-sampl lefel ranbarthol / Bwrdd Iechyd Lleol (3,000-4,500 o ymatebwyr).	Is-sampl ar lefel cenedlaethol (tua 2,000 o ymatebwyr, h.y. tua 100 yr ALL).
Llety* Iaith Gymraeg Celfyddydau / amgueddfeydd / treftadaeth* Teithio llesol - plant Cymorth i rieni i ddysgu* Gofal Plant* Chwarae* Cynllun gofal personol* Gwasanaethau ambiwlans* Gwasanaethau awdurdod lleol a gwarchodaeth ardal* Democratiaeth a dealltwriaeth* Lles Demograffeg (gwlad enedigol, hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, statws cyflogaeth, iechyd cyffredinol, salwch hirdymor cyfyngol, rhyw, cymwysterau, statws priodasol, daliadaeth) Lluoedd arfog* Amddifadedd materol y cartref* Cynhwysiant ariannol Amddifadedd materol plant* Tlodi tanwydd* Cwestiynau Rhynggrwyd (y rhan fwyaf)* e-Ddiogelwch*	Lefel ranbarthol (750 o ymatebwyr ym mhob rhanbarth (Gogledd / Canolbarth / De-ddwyrain / De Orllewin Cymru)) Anifeiliaid anwes** Ailgylchu* Bodddhad ag addysg yng Nghymru ** Entrepreneuriaeth* Defnyddio'r cyfryngau* Rhai cwestiynau y rhynggrwyd * Lefel Bwrdd Iechyd Lleol (650 o ymatebwyr ym mhob un o'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol) Gwasanaethau lleol y GIG Gwasanaethau meddyg teulu Ysbytai Gofal llygaid* Bodddhad gyda system iechyd	Cydllynant cymunedol* Barn am wasanaethau gofal cymdeithasol yn yr ardal leol* Defnydd o wasanaethau iechyd / gofal cymdeithasol yn y Gymraeg* Cenedlaethau'r dyfodol* Llywodraeth Cymru Teithio llesol

* Pwnc newydd ar gyfer 2014-15.

** Is-sampl of 3,000, yr un nifer wedi eu dewis ym mhob ALL (nid yr un nifer ym mhob rhanbarth)

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau a nodir yn y datganiad hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Mae atebion ar goll am sawl rheswm, yn cynnwys pobl yn gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol ac achosion pan nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Lle nodwyd cysylltiad rhwng dau newidyn, nid yw hyn o anghenraid yn awgrymu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen mwy o ddadansoddiadau manylach i nodi unrhyw achosion.

Ceir cyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill drwy'r datganiad hwn. Nodwyd y ffynonellau hyn gan ddim yr Arolwg Cenedlaethol, drwy drafodaethau â chydweithwyr polisi a dadansoddi, a thrwy [astudiaeth](#) a gynhaliwyd ar ddechrau 2012. Ceir systemau i sicrhau mai'r ffigurau a nodir yw'r ffigurau diweddaraf oedd ar gael adeg ei gyhoeddi.

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli i unioni'r tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a diffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw y set ddata terfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru).

Ansawdd y data

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau yma fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, ac yn arwyddo cydymffurfiaid â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Gwladol](#).

Gellir dehongli'r dynodiad yn sgil yr ystadegau, eu bod yn:

- cwrdd â gofynion defnyddwyr;
- wedi eu disgrifio'n dda a'u bod yn hygyrch;
- wedi eu cynhyrchu i ddulliau cadarn, a
- wedi eu rheoli'n ddiduedd ac yn wrthrychol er lles y cyhoedd.

Unwaith bod ystadegau wedi eu dynodi fel Ystadegau Gwladol, y mae'n ofyniad statudol i barhau i ddilyn y Cod Ymarfer.

Adroddiad Ansawdd

Mae [Adroddiad Ansawdd](#) cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu.⁵⁰ Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Mae'r cyfyngau hyder yn rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder wedi cael eu cynnwys yn y tablau o ganlyniadau'r arolwg a gyhoeddwyd ar [StatsCymru](#).

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriedir iddynt wneud hynny neu'n ateb yn anghywir; ac oherwydd y gall

⁵⁰ Trafodir cyfeiliornadau samplu yn fanylach yn yr [Adroddiad Ansawdd](#) ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol.

cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr [Adroddiad Ansawdd](#) ar gyfer yr arolwg.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle mae testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng canlyniadau dau Arolwg Cenedlaethol, rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan mae gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir **bod** gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau ffug. Felly, pan wnaeth gymariaethau, mae natur Geidwadol y prawf yn fantais gan ei fod yn lleihau'r siawns hwn (ond nid yn ei ddileu).

Pan gaiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

Adroddiad Technegol

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn yr [Adroddiad technegol](#) ar gyfer yr arolwg.

Diwygiadau

Am ragor o wybodaeth am ein polisi diwygiadau, ewch [yma](#)

Polisi rhyddhau

Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar [dudalennau gwe ystadegau](#) Llywodraeth Cymru.

Argaeledd setiau data

Gellir gweld y data sy'n sail i'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn mewn cyfres o daenlenni pwnc benodol ar [StatsCymru](#).

Caiff fersiwn anhysbys o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, ei chadw yn [Archif Ddata'r DU](#) ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau hyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler isod).

Ar gyfer cwestiynau a gafodd eu cynnwys hefyd yn 2012-13 a /neu 2013-14, bydd yn bosibl cael dadansoddiadau manylach ar lefel awdurdod lleol / Bwrdd Iechyd drwy gyfuno'r canlyniadau o'r blynnyddoedd cynt i gynyddu maint y sampl.

Defnydd pellach o'r canlyniadau

Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio'n helaeth gan dimau polisi Llywodraeth Cymru, ond maent hefyd yn berthnasol i nifer o sefydliadau ac unigolion allanol eraill:

- Mae Byrddau Iechyd wedi dangos diddordeb yng nghanlyniadau'r arolwg a sut y gellid eu defnyddio i fonitro bodlonrwydd cleifion. Byddai'r canlyniadau hefyd o ddefnydd i Fyrddau Iechyd fel cymharir ar gyfer eu harolygon eu hunain, a dylai fod o ddiddordeb i sefydliadau fel Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).
- Bydd y canlyniadau o ddiddordeb i ystod eang o sefydliadau allanol megis awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio ac at ddiben adrodd.
- Bydd y canlyniadau hefyd fod o ddiddordeb i sefydliadau gwirfoddol, i 'gyfathrebwyr' rhwydwaith [CommsCymru](#) y Gwasanaethau Cyhoeddus, ac i academyddion

Cyswllt

Lisa Walters
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 6685

E-bost: arolygon@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: www.llyw.cymru/arolwgcenedlaethol



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>